



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru Adroddiad Blynyddol 2011-2012

Ymateb i'r her

Roedd y flwyddyn 2011 i 2012 yn her i bawb yn GIG Cymru gyda llawer i'w gyflenwi ar adeg oedd yn anodd yn economaidd. Wynebodd Iechyd Cyhoeddus Cymru'r her, gan wneud cynnydd sylweddol yn erbyn y blaenoriaethau y nodwyd bod angen gweithredu arnynt.

Prosiect braenaru'r blynyddoedd cynnar

Sefydlwyd y prosiect hwn fel 'cynllun braenaru' er mwyn archwilio'r ffordd y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru ychwanegu gwerth i weithgaredd iechyd cyhoeddus yng Nghymru trwy ddod â ffocws ac arweinyddiaeth i faes pwysig yn ymwneud â chynnydd mewn iechyd. Mae'r prosiect yn defnyddio ac yn helpu i gydlyn arbenigedd a swyddogaethau sydd eisoes yn bodoli ledled Cymru yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, academia a phartneriaid iechyd ac asiantaethau eraill. Y nod yw gwella cwrs bywyd plant ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Mae angen cychwyn iach, maeth rhieni a'r amgylchedd cymdeithasol cywir i dyfu ynddo ar blant.

Dechreuodd y cyfnod braenaru hwn o'r prosiect ym mis Rhagfyr 2010 a daw i ben ym mis Hydref 2012. Mae meysydd gweithgaredd allweddol a ysgogir gan y cynllun braenaru hwn yn cynnwys datblygu system wylidwriaeth y blynyddoedd cynnar i ddarparu adroddiadau rheolaidd ar ddangosyddion mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar. Mae gwaith pilot wedi dechrau yn Aneurin Bevan a Chwm Taf, fydd yn cael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2012. Mae prosiectau pilot wedi cael eu sefydlu hefyd i fynd i'r afael â modelau gwahanol ar gyfer cyflenwi ymyriadau rhoi'r gorau i smygu ar gyfer menywod beichiog mewn pedwar Bwrdd Iechyd.

Lleihau'r achosion o smygu

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar roi'r gorau i smygu cyn llawdriniaethau, creu GIG Cymru ddi-fwg, rhoi'r gorau i smygu yn ystod beichiogrwydd ac ymyriadau byr gyda phob smygwr. Ledled Cymru, cafwyd cynnydd yn nifer y smygwr a gysylltodd â Dim Smygu Cymru yn ystod y flwyddyn. Yn lleol, mae timau iechyd cyhoeddus wedi parhau i weithredu cynlluniau rheoli tybaco.



Dyweddodd Dr Peter Bradley, Cyfarwyddwr Datblygu Iechyd Cyhoeddus: "Mae rheoli tybaco yn dal yn brif flaenoriaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n newyddion da bod Dim Smygu Cymru wedi gweld cynnydd yn nifer y cleientiaid y mae wedi ymdrin â nhw eleni. Rydym bellach yn ystyried sut y gallwn dargedu adnoddau'r gwasanaeth yn fwy effeithiol, er enghraifft trwy ganolbwyntio ar feysydd lle mae smygu fwyaf amlwg."

Gweithredu ac ad-drefnu rhaglenni sgrinio

Eleni, cafwyd newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff rhaglenni sgrinio eu cyflenwi yng Nghymru. Cafodd Rhaglen Sgrinio Coluddion Cymru ei roi ar waith fesul cam yn llwyddiannus i gynnwys grŵp oedran ehangach rhwng 60 a 74 oed. Yn Bron Brawf Cymru, mae disodli'r offer mamograffeg analog gydag offer digidol wedi ei gwblhau yng Ngorllewin a De Ddwyrain Cymru, ac mae cynlluniau ar y gweill i gwblhau'r gwaith yng Ngogledd Cymru.

Mae'r gwaith o gynllunio rhaglenni newydd Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen a Sgrinio Smotyn Gwaed Babanod Newydd-anedig Cymru yn parhau. Yn Sgrinio Serfigol Cymru, mae ad-drefnu'r gwasanaethau cytolog yn golygu bod gwaith bellach yn cael ei wneud mewn pedwar labordy er mwyn rheoli'r llif gwaith yn well.

Prosiect Braenaru Cymunedau Cynaliadwy

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i ddatblygu'r Cynllun Braenaru Cymunedau Cynaliadwy, gan ganolbwyntio ar y ffordd y gellir

defnyddio hwn i ddatblygu dull asedau iechyd ledled Cymru.

Dyweddodd y Prif Weithredwr, Bob Hudson: "Y cam nesaf yw gwella gwybodaeth broffesiynol y dull, er mwyn amlygu bod enghreifftiau y gellir eu defnyddio ledled Cymru. Yna edrychwn ymlaen at hybu'r Cynllun Braenaru yn ffurfiol gyda chydweithwyr mewn llywodraeth leol, gan ddysgu o'r profiad Dinasoedd Iach yn Abertawe a Chaerdydd."

Ad-drefnu gwasanaethau microbiolog

Dechreuodd adolygiadau gwasanaethau mewn tair ardal o Gymru yn ystod y flwyddyn, er mwyn sicrhau datblygu gwasanaeth microbiolog modern. Mae adolygiad Gogledd Cymru wedi cynhyrchu adroddiad terfynol sy'n cael ei ystyried gan Fyrddau Iechyd Cyhoeddus Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae adolygiad yn Abertawe Bro Morgannwg yn dal ar y gweill ar ôl cychwyn ym mis Medi 2011, ac yn Ne Ddwyrain Cymru, dechreuodd y gwaith ym mis Tachwedd 2011.

Cymorth i Gyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad parhaus system iechyd cyhoeddus, yn cynnwys datblygiad trefniadau gweithio newydd a fframweithiau strategol iechyd cyhoeddus lleol gyda Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus. Cafwyd buddsoddiad sylweddol mewn timau iechyd cyhoeddus lleol, yn cynnwys mwy o gymorth i ymgynghorwyr, ymarferwyr a staff gweinyddol.

Cwblhau penodiadau Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae penodiadau i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi eu cwblhau gyda phenodiad Terry Rose fel Cyfarwyddwr Anweithredol a Dr Peter Bradley fel Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Iechyd Cyhoeddus.

Terry Rose CBE yw Cyn-gyfarwyddwr Cymru a De Orllewin Lloegr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Ymunodd â Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Tachwedd 2011.

Ymunodd Dr Peter Bradley ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Tachwedd 2011 o Suffolk lle'r oedd yn Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus.

YN FYR

Iechyd y Boblogaeth: Mae'r ddogfen hon yn adrodd ar weithgareddau arwyddocaol Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwneud Cymru yn lle iachach, hapusach a thecach. Nid yw'n adrodd ar iechyd y boblogaeth. Mae'r Prif Swyddog Meddygol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus yn cynhyrchu adroddiadau blynyddol ar iechyd poblogaethau Cymru ym mhob un o'r byrddau Iechyd yn eu tro.

Cynllun Ymateb i Argyfwng: Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal profion manwl o'i gynllun ymateb i argyfwng, a bydd yn parhau i wneud hynny, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu ymateb yn briodol i achosion/argyfyngau. Roedd hyn yn cynnwys chwarae rôl allweddol yn Ymarfer Cambria Guard, hyfforddiant cynllunio ar gyfer argyfwng a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2012. Yn dilyn yr ymarfer, dysgodd Iechyd Cyhoeddus Cymru wersi defnyddiol a gwnaeth ddiwygiadau i'r Cynllun Ymateb i Argyfwng.

Cynhaliwyd diwrnod hyfforddiant ymateb i argyfwng ar 14 Mawrth 2012, oedd yn cynnwys tua 200 o staff ar draws y sefydliad oedd yn canolbwyntio ar baratoi ar gyfer ymateb i'r Gemau Olympaidd.

Mae Llywodraeth Cymru, y gwasanaethau brys, awdurdodau lleol, awdurdodau Iechyd a sefydliadau cynllunio ar gyfer argyfwng yn cydweithio mewn partneriaeth i gryfhau cadernid gwasanaethau yng Nghymru.

Pryderon

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd yr holl bryderon o ddifrif ac yn eu hystyried yn ffordd i ddysgu sut i wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Ar 1 Ebrill 2011, daeth rheoliadau newydd i rym ar gyfer pob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru ac maent yn disodli'r broses bresennol o gwyno, sydd mewn dau gam - datrysiad lleol ac adolygiad annibynnol, gyda phroses symlach, un cam o edrych ar yr holl bryderon. Nodir perfformiad cyffredinol cwynion a phryderon ar gyfer 2011/12 isod:

Cyfanswm y cwynion/pryderon	57
Cyfanswm y cwynion/pryderon ffurfiol	57
Cyfanswm y cwynion a gyrhaeddodd yr ail gam *	0
Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd gan blant	0
Cyfanswm y cwynion a dderbyniwyd gan ASau ac ACau	0
<i>*os aeth y gŵyn i'r Ombwdsmon neu adolygiad yr ysgrifenyddiaeth annibynnol</i>	
Nodir perfformiad Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â Gweithio i Wella – Ymdrin â Phryderon (cwynion/pryderon/digwyddiadau) isod:	
Nifer y cwynion ffurfiol	57
Cydnabuwyd o fewn 2 ddiwrnod gwaith	87%
Ymatebwyd o fewn 30 o ddiwrnodau gwaith	92%
Daeth i ben ar ôl 4 wythnos	92%
Cwynion/pryderon sy'n mynd rhagddynt	2
Amser i ymateb ar gyfartaledd	20.5 o ddiwrnodau

Yn ystod 2011/12, dysgwyd y gwersi a nodwyd y gwelliannau canlynol:

- Cafodd y wybodaeth ar wefan Bron Brawf Cymru a'r daflen wybodaeth am sgrinio ar gyfer menywod hŷn eu diweddarau;
- Mae amserau darparu canlyniadau profion yn cael eu monitro ac mae'r wybodaeth yn cael ei bwydo yn ôl i Bennaeth y Gwasanaethau Labordai ar gyfer yr Is-adran Sgrinio;
- Cymerwyd camau i fynd i'r afael ag ymdrin â galwadau ffôn mewn perthynas â chanlyniadau sgrinio sydd heb eu derbyn;
- Mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu ar gyfer staff mewn perthynas â chyfathrebu;
- Bydd rhestr wirio colonosgopi Sgrinio Coluddion Cymru yn cael ei rhoi ar waith;
- Mae angen hyfforddiant ymyriadau byr ar gyfer staff cyn llawdriniaethau (mae rhywfaint wedi cael ei wneud ond mae bylchau o hyd);
- Ar gyfer trosglwyddo cleientiaid Dim Smygu Cymru, mae angen sicrhau bod proses drosglwyddo'n cael ei hystyried, yn cynnwys datblygiad posibl cronfa ddata i alluogi nodiadau i gael eu rhoi i mewn.

Blwyddyn i ymfalchïo ynddi

Rwyf o'r farn bod yr Adroddiad Blynyddol yn gyfle da i aros ac edrych ar gyflawniadau Iechyd Cyhoeddus Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n hawdd anghofio'r hyn yr ydym wedi ei gyflawni wrth ymdrechu i wneud ein gwaith o ddydd i ddydd.

Dywedais yn adroddiad y llynedd y byddai 2011/12 yn flwyddyn heriol ac mae'n bleser gennyf ddweud ein bod wedi ymateb i'r her honno. Mewn cyfnod o lymder economaidd, rydym yn gwneud ein gorau i ddarparu ein gwasanaethau yn y ffordd fwyaf effeithiol ac i gefnogi'r byrddau Iechyd wrth iddynt wynebu eu heriau ariannol. Mae dyfodiad mamograffeg digidol sgrinio'r fron wedi bod yn gyflawniad sylweddol hefyd i wella Iechyd menywod yng Nghymru.

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu ein prif gyflawniadau a'r prif faterion yr ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn ystod y flwyddyn. Fel unrhyw adroddiad, nid yw'n honni ei fod yn cynrychioli'r holl waith sy'n cael ei wneud gan y timau ar draws y sefydliad bob dydd. Hoffem allu cynnwys popeth, ond nid yw hynny'n bosibl

ac nid yw hynny'n adlewyrchiad o ansawdd y gwaith sydd wedi cael ei hepgor.

Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn nesáu at gyfnod cyffrous yn natblygiad Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rydym yn nesáu at gyfnod newydd pan fydd y sefydliad yn symud tuag at ymagwedd einioes tuag at Iechyd Cyhoeddus. Mae Cynlluniau Braenaru'r Blynyddoedd Cynnar a Chymunedau Cynaliadwy yn arwain y ffordd gyda'r math yma o ddull. Rydym yn dal yn ymroddedig i newid y ffordd yr ydym yn gweithio yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn cyflawni'r nodau a nodir yn Law yn Llaw at Iechyd. Nid oes llawer o systemau Iechyd Cyhoeddus yn y byd yn gweithio yn y ffordd hon ac rwy'n ymfalchïo yn y ffaith bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain y ffordd.

Hoffwn ddiolch i'm cydweithwyr ar Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rwy'n falch iawn o'r ffordd yr ydym wedi mynd i'r afael â materion y mae'r sefydliad yn eu hwynebu ac rwy'n ddiolchgar iddynt a'n staff am eu hymrwymiad i wneud Cymru'n lle iachach, hapusach a thecach i fyw.



**Yr Athro
Syr Mansel Aylward**

Gan edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf, mae'r heriau'n parhau i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae adolygiad parhaus gwella Iechyd yn eithriadol o bwysig a bydd yn newid y ffordd yr ydym yn hybu Iechyd a lles da i bobl Cymru. Yn yr un modd, mae lansio rhaglen sgrinio newydd ymlediad aortig abdomenol yn gyfle cyffrous i leihau effaith cyflwr sydd yn angheuol i nifer fawr o ddynion yng Nghymru.

Gobeithio y byddwch i gyd yn mwynhau, fel y gwnes i, gymryd eiliad i edrych yn ôl ar gyflawniadau niferus Iechyd Cyhoeddus Cymru wrth i chi ddarllen ein hadroddiad.

Yr Athro Syr Mansel Aylward
CB MD FFPM FFOM FRCP HonFFPH
Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru



O'r Chwith i'r Dde - Mark Dickinson, Huw George, Carl Clowes, Ruth Davies a Chris Lines mewn cyfarfod o Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru

O 31 Mawrth 2012 ymlaen, roedd aelodaeth Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru fel a ganlyn:

Enw	Swydd	Cyfrifoldebau Penodol
Yr Athro Syr Mansel Aylward CB	Cadeirydd	Hyrwyddwr Cyn-filwyr
Mr John Spence	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd	Aelod: Pwyllgorau Archwilio, Llywodraethu Gwybodaeth ac Ansawdd a Diogelwch Hyrwyddwr Trais ac Ymosoddedd Hyrwyddwr Cwynion
Dr Carl Clowes OBE	Cyfarwyddwr Anweithredol	Aelod: Pwyllgorau Archwilio, Llywodraethu Gwybodaeth ac Ansawdd a Diogelwch
Dr Jo Farrar	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cadeirydd: Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Gwybodaeth
Mr Terry Rose CBE	Cyfarwyddwr Anweithredol	Ymunodd Tachwedd 2011
Yr Athro Simon Smail CBE	Cyfarwyddwr Anweithredol	Cadeirydd: Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Hyrwyddwr Diogelu Plant
Yr Athro Gareth Williams	Cyfarwyddwr Anweithredol	Aelod: Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, Pwyllgor Ymchwil a Datblygu
Mr Bob Hudson	Prif Weithredwr	
Dr Peter Bradley	Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Iechyd Cyhoeddus	
Mr Mark Dickinson	Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad	
Mr Huw George	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	
Dr Hilary Fielder	Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus	

YN FYR

Iechyd Cyhoeddus Cymru yn monitro targed absenoldeb salwch: Ym mis Hydref 2011, gosodwyd targed salwch diwygiedig o 3.25 y cant i lechyd Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru. Y targed blaenorol, a gyflawnwyd, oedd 3.4 y cant.

Yn 2011/12, 3.3 y cant oedd yr absenoldeb salwch cyffredinol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru'r cyfraddau absenoldeb salwch isaf o hyd ymysg sefydliadau'r GIG yng Nghymru.

Parhau i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb

Sengl: Fe wnaeth y gwaith i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl Iechyd Cyhoeddus Cymru barhau, o dan arweiniad Ruth Davies, Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Mae'r cynllun yn nodi egwyddorion ymrwymiad y sefydliad i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n rhoi ffocws ar gyfer gwaith i ddiogelu iechyd a lles pobl Cymru.

Mae'r cynllun yn nodi saith maes gwaith eang lle mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru'r cyfle gorau i ddatblygu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a meithrin cysylltiadau da:

- ▶ Gwasanaethau a gyflenwir i'r cyhoedd
- ▶ Gwybodaeth am iechyd cyhoeddus
- ▶ Parodrwydd ar gyfer argyfwng
- ▶ Cyflogaeth
- ▶ Asesu'r effaith ar gydraddoldeb
- ▶ Ymgynghori ac ymgysylltu
- ▶ Cyngor polisi i Lywodraeth Cymru.

Mabwysiadu cynllun braenaru i fynd i'r afael ag iechyd y blynyddoedd cynnar

Mabwysiadodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gynllun braenaru ar gyfer rhaglen Iechyd Atgenhedlol a'r Blynyddoedd Cynnar a fydd yn cefnogi'r weledigaeth strategol ar gyfer gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru, y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol ar gyfer Plant ac Ein Dyfodol Iach.

Mae dau brif becyn gwaith ar gyfer y cynllun braenaru:

- ▶ Coladu a gwneud y dystiolaeth ymchwil yn hygyrch ar gyfer ymyriadau i wella canlyniadau geni a'r blynyddoedd cynnar
- ▶ Rhaglenni mapio sydd ar waith ar hyn o bryd a'u heffaith mewn lleoliadau yng Nghymru.

Yn dilyn gweithdy rhanddeiliaid ym mis Ebrill 2011, cafodd yr angen i fonitro dangosyddion atgenhedlol a'r blynyddoedd cynnar yn gynnar ei nodi a chafodd rhestr o ddangosyddion eu datblygu. Yn ystod y cyfnodau cynnar, cafodd argaeledd ac ansawdd y data oedd yn ofynnol i ddatblygu dangosyddion ei asesu, gan ddangos bylchau yn y data sydd ar gael ar draws pob bwrdd iechyd lleol.

Dywedodd Dr Shantini Paranjothy, Rheolwr Rhaglen ar gyfer Rhaglen Braenaru Iechyd Atgenhedlol a'r Blynyddoedd Cynnar, "Mae'r cynllun braenaru hwn yn dod â'r holl waith caled a wnaed ers i'r prosiect hwn ddechrau ynghyd, gan ddod â gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol ar draws y GIG ynghyd i weithio gyda'i gilydd a chanolbwyntio ar wella iechyd a lles plant yng Nghymru."

Fferyllfeydd Lleol Cymru yn darparu gwasanaeth hanfodol mewn ardaloedd difreintiedig

Mae ymchwil a wnaed gan Dîm Fferyllol Iechyd Cyhoeddus ym mis Ionawr 2012 yn datgelu yng Nghymru bod fferyllfeydd cymunedol yn fwy tebygol o fod wedi eu lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd uchel nag ardaloedd o amddifadedd isel.

Gwnaeth Tîm Fferyllol Iechyd Cyhoeddus y gwaith ar ddsbarthiad fferyllfeydd ac amddifadedd mewn ymateb i awgrymiadau y gallai fferyllfeydd cymunedol sy'n cynnig mwy o wasanaethau gyfrannu at leihau anghydraddoldebau oherwydd lleoliad fferyllfeydd cymunedol.

Edrychodd y gwaith ar ddsbarthiad fferyllfeydd cymunedol yn ôl cwintelau amddifadedd ar gyfer Cymru ac ar gyfer bob un o'r byrddau iechyd.



Yn y llun:
Lesley Griffiths AC
ac i'r dde, Prif
Gweinidog Cymru
Carwyn Jones AC

Cynhadledd yn dod â rhanddeiliaid ynghyd

Mynychodd dros 230 o wneuthurwyr polisïau, arweinwyr a gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd cyhoeddus ar draws y sector cyhoeddus Gynhadledd Gyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru, 'Canlyniadau Iechyd Tecach i Bawb' ym mis Medi 2011.

Cymerwyd y thema o gynllun gweithredu ar anghydraddoldebau iechyd Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y gynhadledd ar y cyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), a Chyddfederasiwn GIG Cymru.

Nod y gynhadledd oedd:

- ▶ Datblygu dealltwriaeth a dysg am anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru
- ▶ Dwyn gweithredu ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru yn ei flaen

- ▶ Llywio'r broses o wneud polisïau ac ymarfer
- ▶ Codi proffil iechyd cyhoeddus yng Nghymru

Gwrandawodd cynadleddwyr ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol ar Brif Weinidog Cymru Carwyn Jones AC, Lesley Griffiths AC, Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Syr Muir Gray, Cyfarwyddwr Canolfan Rhydychen ar gyfer Trawsnewid Gofal Iechyd, Dr Tony Jewell, Prif Swyddog Meddygol Cymru, Dr Jessica Allen, Cyfarwyddwr Prosiect Adolygiad Strategol Anghydraddoldebau Iechyd, Clive Needle, Cyfarwyddwr EuroHealth Net a'r Athro Syr Mansel Aylward, Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Dywedodd Dr Tony Jewell: "Rwy'n falch o fod yn rhan o Gynhadledd Gyntaf Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gynhadledd wedi denu cynadleddwyr o ystod eang o rolau sydd â budd yn iechyd cyhoeddus ac mae wedi ennyn trafodaethau defnyddiol ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru."

Gwaith yn parhau ar Gynllun Braenaru Cymunedau Cynaliadwy

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi parhau i gynllunio gwaith y Cynllun Braenaru Cymunedau Cynaliadwy, sydd yn cynnwys cydweithwyr o fyd academia, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a phartneriaid eraill er mwyn cymhwyso gwybodaeth ar gyfer cael cymunedau i symud er mwyn gwella eu hiechyd.

Cynnal Digwyddiadau Digartrefedd a Chyfnawid Dysgu yng Ngogledd, De a Chanolbarth Cymru

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth â Chymorth Cymru a Llywodraeth Cymru, dri Digwyddiad Cyfnawid Dysgu ar Iechyd a Digartrefedd yng Ngogledd, De a Chanolbarth Cymru ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2011.

Nod y digwyddiadau rhanbarthol oedd dod â phobl sydd yn gweithio ym maes iechyd, digartrefedd a sectorau partner ynghyd i rannu gwybodaeth am bolisi, arweiniad ac arfer gorau er mwyn gwella anghenion iechyd pobl sydd yn agored i niwed oherwydd eu tai, eu bod yn ddigartref neu'n cysgu ar y stryd.

Mynychodd dros 100 o gynadleddwyr ac roedd yr adborth yn gadarnhaol.

Dim Smygu Cymru'n cael blwyddyn lwyddiannus arall

Dengys ffigurau fod 16,000 o bobl wedi cael apwyntiad i fynychu rhaglen cymorth ymddygiadol chwe wythnos Dim Smygu Cymru yn ystod 2011/12, a bod dros hanner y rhain wedi mynd ymlaen i gymryd rhan mewn rhaglenni cymorth chwe wythnos lleol i'w helpu i roi'r gorau i smygu.

Ers i Dîm Smygu Cymru sefydlu system ffôn newydd ym mis Awst 2011, maent wedi derbyn bron 28,000 o alwadau ar radffôn Dim Smygu Cymru. Mae hyn bron yn ddwbl y galwadau a dderbyniwyd yn 2008/09.

Parhaodd cyrsiau hyfforddiant ar gyfer gweithwyr iechyd a chymunedol i gael eu cyflenwi fel nodwedd allweddol arall o wasanaeth Dim Smygu Cymru. Trwy wneud cwrs hyfforddiant byr, mae gweithwyr iechyd a chymunedol yn dysgu sut i annog smygwyr y maent yn dod i gysylltiad â nhw yn rheolaidd i roi'r gorau i'r arferiad.

Yn ystod 2011/12, cafodd bron 700 o weithwyr proffesiynol eu hyfforddi ledled Cymru. Cafodd modiwl e-ddysgu hefyd ei lansio ym mis Ionawr. Mae hwn wedi cael ei hyrwyddo yn eang i gynyddu ac ehangu

mynediad i wybodaeth a sgiliau wrth helpu smygwyr i roi'r gorau iddi ledled Cymru.

Mae Dim Smygu Cymru wedi parhau i weithio mewn partneriaeth ag ysbytai i amlygu'r ffaith bod smygu'n cynyddu'r perygl o ddatblygu cymhlethdodau ar ôl llawdriniaeth, yn cynnwys problemau anadlu a'r ysgyfaint, perygl o haint a chlwyfau'n gwella'n arafach. Gan ddatblygu llwyddiant y gwaith a gyflwynwyd yn ystod 2009/10, mae Dim Smygu Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda bydragedd i gefnogi menywod beichiog i roi'r gorau i smygu.

Cafodd gwefan Dim Smygu Cymru ei hail-lansio ym mis Ionawr 2012. Mae'r gwelliannau yn cynnwys deunydd newydd fel astudiaethau achos, awgrymiadau'n ymwneud â rhoi'r gorau iddi, cyfrifiannell smygu a chyngror iechyd.



Rhoi'r gorau i smygu mewn Byrddau Iechyd

Lansiodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan eu Polisiâu Di-fwg rhwng Ionawr a Mawrth 2012. Nod y polisiâu yw creu amgylchedd di-fwg ar gyfer pawb sy'n ymweld â'u hadeiladau ar draws y byrddau iechyd.

Gweithiodd Timau Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan a Betsi Cadwaladr ar ddatblygu a gweithredu'r Polisiâu Di-fwg newydd. Roedd y timau'n gysylltiedig â datblygu negeseuon allweddol a deunydd hyrwyddo er mwyn sicrhau bod staff ac ymwelwyr yn cael yr arweiniad a'r cymorth yn ymwneud â sut i wella eu hiechyd a'u lles trwy roi'r gorau i smygu.



Diolch am Beidio ag Ysmygu

Mae'r polisiâu newydd yn golygu nad oes gan unrhyw staff, contractwyr, cleifion nac ymwelwyr hawl i smygu yn yr adeiladau nac ar dir y mae'r ddau fwrdd iechyd yn berchen arno. Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn ceisio rhoi polisiâu di-fwg ar waith.

Teuluoedd yn cael eu hannog i gymryd cam i'r cyfeiriad cywir

Ym mis Mai 2011, lansiodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Hywel Dda raglen ar draws y wlad, sef 'Am Dro am Glonc Sir Gâr', i annog teuluoedd lleol i gerdded gyda'i gilydd fel gweithgaredd rheolaidd er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles.

Cynllun bwydo ar y fron Tîm Iechyd Cyhoeddus Cwm Taf

Ym mis Mehefin 2011, dechreuodd y gwaith ar draws ardal Cwm Taf i gynyddu'r manau lle mae mamau'n teimlo bod croeso iddynt fwydo ar y fron. I nodi Wythnos Genedlaethol Bwydo ar y Fron, cynhaliodd tîm iechyd cyhoeddus ddigwyddiad i godi ymwybyddiaeth o Gynllun Croesawu Bwydo ar y Fron Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun yn annog manau cyhoeddus fel caffis, llyfrgelloedd, ysgolion a chanolfannau cymunedol i gefnogi anghenion mamau sy'n bwydo ar y fron a'u babanod trwy greu awyrgylch lle mae bwydo ar y fron yn cael ei groesawu.

Llwyddiant i hyfforddiant sgiliau atal hunanladdiad

Gweithiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda'r elusen MIND Cymru ar y Prosiect Dewisiadau Cadarnhaol, oedd yn cynnwys cyflenwi hyfforddiant sgiliau atal hunanladdiad.

Nod cwrs ASIST (Hyfforddiant Sgiliau Ymyriadau Hunanladdiad Cymwysedig) yw helpu pobl i adnabod yr arwyddion y gallai rhywun fod yn ystyried cyflawni hunanladdiad, ac mae'n rhoi'r sgiliau iddynt drafod y mater.

Canfu ymchwil a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Chwefror fod 97 y cant o'r bobl a fynychodd y cwrs yn teimlo mewn sefyllfa well i helpu rhywun sy'n ystyried cyflawni hunanladdiad, a bod 73 y cant wedi mynd ymlaen i ddefnyddio'r sgiliau yr oeddent wedi eu dysgu.

Prosiect newydd yn gwneud bwyd ffres, iach yn hygyrch

Mae ffrwythau a llysiau ffres bellach yn fwy hygyrch i drigolion ym Mlaenau Gwent, diolch i brosiect newydd sy'n cael ei redeg gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Aneurin Bevan.

Trwy'r Cynllun Manwerthu Iach, bydd tair siop yn gwerthu ffrwythau a llysiau ffres am brisiau cystadleuol. Mae'r Cynllun Manwerthu Iach yn cael ei redeg gan bartneriaeth o sefydliadau yn cynnwys Cymunedau yn Gyntaf Sant Illtyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Dechrau'n Deg Brynithel, a'r Uned Adfywio Gwledig a Blas am Oes gan Lywodraeth Cymru.

Cynlluniau peilot fferylliaeth Cymru yn llwyddiant mewn cymunedau gwledig

Yn dilyn cais fferylliaeth ar y cyd llwyddiannus i Gronfa Arloesi Iechyd Gwledig Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2010, cynhaliodd tri bwrdd iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Hywel Dda a Bwrdd Iechyd addysgu Powys) y cynlluniau peilot a gafodd eu gwerthuso gan Dîm Iechyd Cyhoeddus Fferyllol.

Dywedodd Gareth Holyfield, Prif Fferylllydd Iechyd Cyhoeddus i Iechyd Cyhoeddus Cymru, a arweiniodd gwerthusiad y prosiectau: "Mae gwerthusiadau cyffredinol y cynlluniau peilot wedi dangos sut y gall fferyllfa gymunedol gyfrannu at ofal gwell i gleifion yn ardaloedd gwledig Cymru. Maent wedi dangos y ffordd y gellir integreiddio, rhoi mynediad a chyflenwi gwasanaethau gofal iechyd o fferyllfeydd cymunedol gwledig.

"Mae'r gwerthusiadau hefyd yn amlygu adborth cadarnhaol gan gleifion ar gyfer bob un o'r prosiectau peilot ac yn cydnabod cyfraniad fferyllfa gymunedol i themâu allweddol y Cynllun Iechyd Gwledig yng Nghymru."

Ffocws ar y blynyddoedd cynnar ar gyfer cynhadledd iechyd meddwl

Trafododd cynadleddwyr yng nghynhadledd flynyddol Rhwydwaith Hybu Iechyd Meddwl Cymru Gyfan bwysigrwydd datblygiad y blynyddoedd cynnar ar iechyd a lles meddwl.

Clywodd y gynhadledd, a gynhaliwyd ym mis Ionawr, gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, yn ogystal â Robin Balbernie a drafododd effaith ffactorau cymdeithasol ac amgylcheddol ar ddatblygiad plentyn ac iechyd meddwl yn ddiweddarach mewn bywyd.

Iechyd rhywiol ymysg pobl dros 50 oed yn bwynt trafod allweddol mewn cynhadledd

Canolbwyntiodd Cynhadledd Flynyddol Cyswllt Iechyd Rhywiol Cymru Gyfan 'Y Rhyw Deg: Mynd i'r afael ag Anghydraddoldebau Iechyd Rhywiol yng Nghymru' ar anghydraddoldebau iechyd rhywiol. Roedd y testunau a drafodwyd yn cynnwys:

- Ymateb i anghenion iechyd rhywiol gweithwyr rhyw yng Nghymru.
- Iechyd Rhywiol Menywod mewn Hosteli: Prosiect WHISH.




1000 o Fywydau a Mwy

1000 o Fywydau a Mwy yw rhaglen genedlaethol gwella gwasanaethau Cymru a chaiff ei chyflenwi mewn partneriaeth gan Lywodraeth Cymru, NLIAH ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae ceisio sicrhau gwelliant yn hanfodol i ymarfer clinigol. Mae sawl maes newydd wedi cael ei ddwyn ymlaen gan ddefnyddio methodoleg gwelliant wedi ei safoni, yn cynnwys Trawsnewid Gwasanaethau mamolaeth. Mae mewnbyn iechyd cyhoeddus wrth ddatblygu'r meysydd hyn yn cefnogi gofal dibynadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae 1000 o Fywydau a Mwy wedi datblygu cyfres o ganllawiau gwella, sy'n teiwra methodoleg y rhaglen ar gyfer cynulleidfaoedd targed penodol yn cynnwys nyrsys, fferyllwyr ac addysgwyr a myfyrwyr. Mae Canllawiau, papurau gwyn, seminarau mawr a digwyddiadau dysgu ledled Cymru a thu hwnt yn galluogi arfer gwell i gael ei ledaenu mewn ffyrdd sefydledig a chynaliadwy.

Er mwyn cefnogi meithrin gallu i wella ansawdd yn lleol, hwylusodd 1000 o Fywydau a Mwy daith astudio i Jonkoping, Sweden. Gwelodd y byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau werth cysylltu amcanion sefydliad â gwaith clinigol a bywiogi cyflymer newid. Mae'r papur gwyn Ansawdd, Datblygu ac Arweinyddiaeth - Gwersi i'w dysgu gan Jonkoping yn cyfleu'r dysgu hwn ac yn rhoi argymhellion ar gyfer cyfeiriad 1000 o Fywydau a Mwy i'r dyfodol.



Mae hyfforddiant Straeon ar gyfer Gwella wedi cefnogi sefydliadau GIG Cymru i ddatblygu eu defnydd o straeon fel offeryn i gefnogi gwella gwasanaeth. Yn yr un modd, mae lansio prosiect Bywyd ar ôl Strôc wedi cefnogi datblygiad GIG sy'n cael ei lywio gan y cyhoedd a chleifion, gyda'r nod o wella cydgyssylltedd a hygyrchedd y cymorth sydd ar gael ar gyfer y rheiny sy'n goroesi strôc.

Mae 1000 o Fywydau a Mwy yn parhau i gynorthwyo'r gymuned academaidd yng Nghymru i ddatblygu ac integreiddio gwella ansawdd i gwricwlwm gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd. Mae Pennod Myfyrwyr 1000 o Fywydau a Mwy wedi cyrraedd 1500 o aelodau, sy'n darparu canolfan gyfathrebu, addysgu anffurfiol a chyfleoedd ar gyfer gwella i gefnogi gwirfoddolwyr sy'n fyfyrwyr ar draws prifysgolion a phroffesiynau yng Nghymru.

Tudalennau gwe newydd ar gyfer Rhaglen Atal a Hybu Genedlaethol

Ym mis Chwefror, cafodd tudalennau gwe newydd eu lansio ar gyfer adroddiad ac argymhellion terfynol y Rhaglen Atal a Hybu Genedlaethol.

Gweithiodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn 2011 i ddatblygu'r rhaglen, sy'n ceisio lleihau gwastraff, niwed ac amrywiad yn y GIG yng Nghymru.

Mae'r adroddiad terfynol yn amlygu nifer o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sydd â'r potensial i gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lleihau costau iechyd a gofal cymdeithasol

mewn cyfnod cymharol fyr o amser.

Gofynnwyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru ystyried y ffordd y gellir monitro gweithredu'r argymhellion hyn a'r cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau a nodwyd.

Rhodddwyd blaenoriaeth i'r ymyriadau hynny a all gael effaith ar iechyd a'r defnydd o wasanaethau iechyd a'r sector cyhoeddus yn y tymor byr i ganolog, tair i bum mlynedd.

Maent yn canolbwyntio ar leihau baich y defnydd o dybaco ac alcohol, perygl fasgwlaidd, lleihau effaith cwmpo ymysg pobl hŷn a gwella iechyd yn y gweithle

Amlygu Cynllun Gweithredu Hepatitis Feirysol a Gludir yn y Gwaed i nodi Diwrnod Hepatitis y Byd



Nododd Iechyd Cyhoeddus Cymru Ddiwrnod Hepatitis y Byd ym mis Gorffennaf 2011 trwy amlygu blwyddyn gyntaf lwyddiannus ar gyfer Cynllun Gweithredu Hepatitis Feirysol a Gludir yn y Gwaed Cymru.

Cafodd y cynllun ei gytuno gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2010. Ei nod yw lleihau trosglwyddiadau hepatitis yng Nghymru, cynyddu cyfraddau diagnosis heintiau cyfredol a gwella triniaeth a chymorth ar gyfer unigolion sydd wedi eu heintio.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon, cyflawnwyd nifer o weithredoedd a gosodwyd y sylfeini ar gyfer llawer un arall.

Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno prawf ar smotyn sych o waed mewn gwasanaethau camdefnyddio sylweddau dethol yng Nghymru, penodi nyrs carchardai sy'n arbenigo mewn feirysau a gludir yn y gwaed yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyflwyno Cronfa Ddata Lleihau Niwed newydd ym mhob gwasanaeth rhaglenni nodwyddau a chwistrellau statudol a gwirfoddol ledled Cymru



Ffilm o gymorth i fyfyrwyr adnabod arwyddion Llid yr Ymennydd

Ym mis Ebrill 2011, ymunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â Laura Vines, myfyrwraig ym Mhrifysgol Caerdydd, i gynhyrchu ffilm yn codi ymwybyddiaeth o symptomau llid yr ymennydd. Lanlwythwyd y ffilm ar YouTube a chafodd ei dosbarthu ar DVD i bob ysgol a choleg yng Nghymru.

Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu cronfa ddata Ewropeaidd Hepatitis B

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael contract gan Ganolfan Rheoli Clefydau Ewrop (ECDC) i ddatblygu cronfa ddata arfaethedig Hepatitis B (HBV) ar gyfer Ewrop gyfan.

Cymru'n cymryd rhan mewn arolwg ledled Ewrop o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd

Cydlynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfranogiad Cymru mewn astudiaeth Ewropeaidd i gasglu data ar heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd a defnyddio gwrthficrobau mewn ysbytai. Cefnogodd Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Cymru a Rhaglenni Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd Cymru Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â 1000 o Fwydau a Mwy, GIG Cymru i gynnal Arolwg Nifer yr Achosion 2011 yn ystod mis Tachwedd

Cynnydd yn y pas yn amlygu pwysigrwydd brechu

Anogodd Iechyd Cyhoeddus Cymru rieni i sicrhau bod eu plant yn cael eu brechu yn erbyn y pas ar ôl i nifer yr achosion yng Nghymru fwy na dyblu. Rhwng Ionawr a Hydref 2011, cadarnhawyd 37 o achosion o'i gymharu â 14 yn ystod 2010 i gyd.

Mae plant yn cael cynnig y brechlyn yn ddau, tri a phedwar mis oed fel rhan o frechlyn 5 mewn 1.

Cyhoeddi cyfraddau ymgymeriad blynyddol diweddaraf brechlynnau yng Nghymru

Cyhoeddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei adroddiad blynyddol COVER (Gwerthuso Cyflym Cwmpas Brechu) ym mis Mehefin 2011, oedd yn nodi ymgymeriad brechlynnau plentyndod yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011. Ymysg yr uchafbwyntiau oedd ymgymeriad

pob brechlyn arferol ar gyfer plant blwydd oed oedd y tu hwnt i'r targed o 95 y cant, ac ymgymeriad yr ail ddos o'r brechlyn MMR (y frech goch, clwy'r pennau a rwbela) erbyn pum mlwydd oed oedd yn cyrraedd 86.9 y cant, y gyfradd uchaf erioed.

Cyhoeddi adroddiad ar ymwrthedd a defnydd gwrthfacterol yng Nghymru

Cyhoeddodd Rhaglen Ymwrthedd Gwrthficrobaidd Cymru adroddiad newydd ym mis Tachwedd 2011 i gyd-fynd â Diwrnod Ymwybyddiaeth o Wrthfotigau Ewrop. Roedd yr adroddiad yn cwmpasu 2005 i 2010 ac yn edrych ar y ffaith bod gan lawer o heintiau difrifol a chyffredin ymwrthedd i wrthfotigau a chyffuriau gwrthficrobaidd sy'n cael eu rhagnodi i gleifion yng Nghymru.

Cyhoeddi Adroddiad o'r Achosion o Glefyd y Llengfilwyr

Cyhoeddodd tîm rheoli achosion Iechyd Cyhoeddus Cymru adroddiad ar yr achosion o glefyd y Llengfilwyr yn Ne Cymru rhwng Medi a Hydref 2010. Cafodd tîm aml-asiantaeth ei sefydlu i ymchwilio i'r achosion, a arweiniodd at 22 achos o'r clefyd a dwy farwolaeth. Ni chafodd un ffynhonnell unigol ei nodi ond roedd yr ymchwiliadau yn awgrymu y gallai nifer o ffynonellau fod wedi rhoi cyfrif am yr achosion.

Dwy flynedd gyntaf lwyddiannus i Sgrinio Coluddion Cymru

Cyhoeddodd Sgrinio Coluddion Cymru adroddiad ym mis Rhagfyr 2011 yn amlygu dwy flynedd gyntaf lwyddiannus ar gyfer y rhaglen.

Datgelodd yr adroddiad, o ddechrau'r rhaglen ym mis Hydref 2008 i fis Tachwedd 2010, y cafwyd cyfradd ymgymeriad o 55.2 y cant a bod dros 400,000 o bobl rhwng 60 a 69 oed wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio trwy wneud prawf cartref a anfonwyd drwy'r post.

Mae'r ystod oedran sydd wedi ei chynnwys yn y rhaglen bellach wedi cael ei hymestyn i 74 oed.

Cymru yw'r cyntaf i ddefnyddio technoleg sgrinio serfigol newydd

Sgrinio Serfigol Cymru fydd y rhaglen sgrinio gyntaf yn y DU i ddefnyddio'r dechnoleg awtomataidd newydd.

Rhoddodd y rhaglen y dechnoleg ar waith ledled Cymru ar 1 Ionawr 2012 yn dilyn cyhoeddi canllawiau Rhaglenni Sgrinio Canser y Gwasanaeth Iechyd Gwladol i'w defnyddio.

BD FocalPoint technology yw'r unig dechnoleg awtomataidd ar gyfer sgrinio canser serfigol sydd wedi ei chymeradwyo i gael ei defnyddio gan y GIG. Mae'n gallu dadansoddi ac adnabod hyd at 25 y cant o samplau sgrinio y gellir eu nodi i fod yn "gwbl glir", lle nad oes angen eu harchwilio â llaw o gwbl.

Sgrinio Clyw Babanod Cymru yn cyhoeddi adroddiad blynyddol

Cyhoeddodd rhaglen Sgrinio Clyw Babanod Cymru ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2011, yn amlygu blwyddyn lwyddiannus

Dengys yr adroddiad, yn 2010/11, fod 99.9 y cant o fabanod cymwys yng Nghymru wedi cael cynnig y gwasanaeth sgrinio, a bod 99.7 y cant wedi cael eu sgrinio, heb i lawer o rieni wrthod y gwasanaeth.

Gwaith moderneiddio Bron Brawf Cymru yn mynd rhagddo



Amanda Davies, Radiograffydd ar gyfer Bron Brawf Cymru yn dangos offer newydd i Lesley Griffiths AC, Yr Athro Syr Mansel Aylward a Rosemary Johnson, Pennaeth y Rhaglen, Bron Brawf Cymru

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd gwaith i foderneiddio offer Bron Brawf Cymru mewn dwy ardal o Gymru.

Ar ôl dyfarnu £10 miliwn o gyllid Llywodraeth Cymru yn 2010, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn adnewyddu ei holl offer mamograffeg analog gydag offer digidol o'r radd flaenaf. Bydd hyn yn sicrhau gwasanaeth mwy cynaliadwy i'r boblogaeth sy'n cael ei sgrinio am na ellir atgyweirio neu ddisodli'r offer analog bellach pe byddai'n methu.

Cwblhawyd y gwaith yn Ne Ddwyrain Cymru a Gorllewin Cymru, ac mae cynlluniau ar y gweill i gwblhau'r gwaith yng Ngogledd Cymru.

Ym mis Tachwedd 2011, ymwelodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, â chanolfan sgrinio Bron Brawf Cymru yn Abertawe i weld sut roedd yr offer newydd yn cael ei ddefnyddio.

Dywedodd Dr Rosemary Fox, Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio: "Diolch i'r buddsoddiad hwn o £10 miliwn gan Lywodraeth Cymru, gall Bron Brawf Cymru ddarparu sgrinio o ansawdd uwch hyd yn oed ar gyfer canser y fron ymysg pob menyw gymwys yng Nghymru, fydd yn arwain at gynnal y gyfradd ganfod orau yn y DU."

Cynllunio rhaglen sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen yn parhau

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhoi rhaglen sgrinio o ansawdd uchel ar waith ar gyfer Cymru ar gyfer ymlediad aortig abdomenol yn ystod 2013.

Mae tîm prosiect wedi cael ei sefydlu ar gais Llywodraeth Cymru i gynllunio rhaglen sgrinio yn cynnig sgan uwchsaïn untro i ddynion 65 oed i edrych ar ddiamedr y brif aorta sy'n cyflenwi gwaed i'r corff.

Bydd aorta rhai pobl yn chwyddo i faint a allai rwygo, gan achosi gwaedu mewnol sy'n debygol o achosi marwolaeth cyn cyrraedd yr ysbyty.

Mae Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen sydd yn rhwygo yn achosi dros ddau y cant o farwolaethau ymysg dynion dros 65 oed yng Nghymru. Amcangyfrifir y gallai rhaglen sgrinio i ganfod ymlediadau mawr a'u hatgyweirio cyn iddynt rwygo achub hyd at 100 o fywydau'r flwyddyn.

Archwiliad sgrinio'r fron yn amlygu llwyddiant Cymru

Mae gan Bron Brawf Cymru'r gyfradd canfod canser uchaf ymysg holl raglenni sgrinio'r DU yn ôl data a gyhoeddwyd ym mis Mai 2011.

Cyflwynwyd canlyniadau o archwiliad sgrinio'r fron blynyddol yn y DU mewn cynhadledd genedlaethol gan Gymdeithas Llawfeddygaeth y Fron.

Roedd yr adroddiad blynyddol yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2010 ac yn dangos bod gan Gymru'r gyfradd canfod canser uchaf ymysg holl wledydd y DU fesul 1,000 o fenywod a gafodd eu sgrinio am y drydedd flwyddyn yn olynol.

Canfu sgrinio yng Nghymru 7.2 o ganserau ymledol fesul 1,000 o fenywod gyda chyfartaledd y DU yn 6.4 fesul 1,000, 3.9 o ganserau ymledol bach o'i gymharu â chyfartaledd y DU o 3.4, a 1.9 o ganserau micro neu anymledol o'i gymharu â chyfartaledd o 1.6 yn y DU

Canfod gwahaniaethau mawr mewn disgwyliad oes yng Nghymru

Mae adroddiad Cymru gyfan ac adroddiad proffiliau awdurdodau lleol a gyhoeddwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Rhagfyr 2011 yn dangos bod gwahaniaethau mawr yn nisgwyliad oes iach ar gyfer pobl sydd yn byw yn yr un awdurdod lleol.

Dengys y data fod gan awdurdodau lleol â'r anghyfartaleddau mwyaf o ran lefelau amddifadedd y bylchau mwyaf o ran anghydraddoldeb, sydd yn cyrraedd 22 o flynyddoedd yng Nghaerdydd ac Abertawe.

Yn genedlaethol, mae'r bwllch o ran anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes cyffredinol wedi ehangu ychydig dros amser. Mae'r bwllch rhwng y rheiny sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig wedi codi i 9.2 o flynyddoedd ar gyfer dynion (8.6



yn flaenorol) a 7.1 ar gyfer menywod (6.5 yn flaenorol).

Mae'r adroddiad hefyd yn edrych ar dueddiadau mewn marwolaethau oherwydd alcohol a smygu ac yn sgil clefyd cylchrediad y gwaed, clefyd anadlol a chanser yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig. Canfu'r adroddiad fod bylchau o ran anghydraddoldeb ar gyfer marwolaethau oherwydd alcohol a smygu yn arbennig o eang yng Nghymru.

Cyhoeddi adroddiad Canser yng Nghymru

Ym mis Medi 2011, cyflwynodd Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (WCISU) adroddiad newydd yn nodi ystadegau canser o 1995 i 2009.

Mae'r adroddiad, a gyhoeddir gan WCISU bob tair blynedd, yn nodi mynychder, marwolaethau, nifer yr achosion o ganser a'r cyfraddau goroesi ar gyfer Cymru gyfan a Byrddau Iechyd unigol, ac mae'n creu cymar-iaethau rhwng Cymru a gwledydd eraill y Byd.

Dywedodd Dr John Steward, Cyfarwyddwr WCISU ar y pryd: "Mae'n bleser gennyf allu cyflwyno'r adroddiad hwn, sydd yn dangos tystiolaeth bod cynnydd gwirioneddol yn cael ei wneud yn datblygu gwasanaethau canser yng Nghymru, gan arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer pobl sydd wedi cael diagnosis o ganser."

Rhaglen mesur plant Cymru yn dechrau yng Nghymru

Cafodd rhaglen wedi ei chynllunio i helpu gweithwyr iechyd proffesiynol i ddeall patrymau twf plant ar draws Cymru ei chyflwyno ym mis Medi 2011.

Bydd y Rhaglen Mesur Plant, rhaglen genedlaethol a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn casglu gwybodaeth ar daldra a phwysau pob plentyn dosbarth derbyn yng Nghymru.

Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi gan weithwyr iechyd proffesiynol ar lefel leol a chenedlaethol i geisio nodi tueddiadau a monitro iechyd plant Cymru.

Dywedodd Dr Judith Greenacre, Cyfarwyddwr Gwybodaeth Iechyd i Iechyd Cyhoeddus Cymru: "Mae'r rhaglen hon yn bwysig iawn oherwydd bydd yn ein galluogi ni i gymharu canlyniadau ar lefel bwrdd iechyd.

"Am y tro cyntaf, bydd gennym ddata cyson am ordewdra mewn plentynod ar lefel leol er mwyn mesur ein cynnydd yn erbyn y mater



pwysig hwn yn ymwneud ag iechyd cyhoeddus.

"Trwy nodi tueddiadau allweddol ym mhob ardal, byddwn yn gallu cynllunio ein gwasanaethau iechyd yn well."

Mae gan Gymru un o'r cyfraddau gordewdra uchaf ymysg plant ysgol uwchradd yn Ewrop. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda'i randdeiliaid er mwyn safoni'r ffordd y mae pob plentyn dosbarth derbyn yn cael ei fesur ar draws y wlad.

Partneriaeth Ryngwladol Meincnodi Canser

Mae Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru wedi cyfrannu at Bartneriaeth Ryngwladol Meincnodi Canser (ICBP), partneriaeth ryngwladol unigryw o glinigwyr, academyddion a gwneuthurwyr polisiau.

Mae'r bartneriaeth yn ceisio deall sut a pham y mae cyfraddau goroesi canser yn amrywio rhwng gwledydd ac awdurdodaethau. Ei nod yw rhoi mewnwelediad a dealltwriaeth fydd yn helpu'r holl bartneriaid i wella canlyniadau goroesi canser trwy wella polisiau a gwasanaethau canser.

IN BRIEF

Creu dadansoddiad manwl o Arolwg Iechyd Cymru: Cydweithredodd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2012 i greu adroddiad sy'n cyflwyno canfyddiadau o Arolwg Iechyd Cymru ar lefel leol fanylach nag oedd ar gael cyn hynny.

Cyhoeddi Adolygiad 2011 CARIS:

Cyhoeddodd CARIS, Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddu Cynhenid Cymru, ei adolygiad blynyddol ym mis Rhagfyr 2011.

Dyma'r 13eg adolygiad ers i CARIS gael ei sefydlu ym 1998, ac mae'r adroddiad yn seiliedig ar ddata a nodwyd o achosion o feichiogrwydd o 1998 i 2010.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am anomaleddu cynhenid yng Nghymru ac adolygiad manylach o anomaleddu'r system anadlol a llwybr all-lif y galon.

Arsyllfa yn defnyddio SAIL i lywio gwaith lleol meddygon teulu: Mae Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn cydweithrediad ag Uned Ymchwil Gwybodaeth Iechyd Prifysgol Abertawe, wedi cyhoeddi adroddiad yn edrych ar batrymau Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint yn ardal Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg.

Adroddiadau blynyddol cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus:

Cynhyrchodd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru lyfrau siart lleol i gynorthwyo Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i ysgrifennu adroddiadau blynyddol a gyhoeddir gan bob un o'r saith Bwrdd Iechyd. Mae'r llyfrau siart yn cynnwys data lleol manwl ar gyfer amrywiaeth o destunau iechyd y cyhoedd.

Adroddiad tegwch iechyd llygaid Cwm Taf yn datgelu materion mewn un ardal: Cyhoeddodd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

broffil ar degwch iechyd llygaid yng Nghwm Taf ym mis Ionawr 2012 er mwyn llywio prosiect ymgysylltu â'r gymuned sy'n cael ei ddatblygu gan Sefydliad Cenedlaethol Pobl Ddall (RNIB). Roedd y proffil yn ystyried pa ardal yng Nghwm Taf allai elwa ar brosiect yr RNIB ac yn ystyried lefelau amddifadedd a nifer y bobl hyn yn yr ardal.

Edrychodd y proffil hefyd ar nifer y bobl â nam ar eu golwg, retinopathi diabetic, glawcoma, cataractau a dirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig â henaint.

Proffiliau Iechyd y Geg: Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Caerdydd, cyhoeddodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Deintyddol broffiliau iechyd y geg ar gyfer pob Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth, 2012. Amlygodd yr adroddiadau amrywiadau ar draws Byrddau Iechyd o ran pydredd dannedd y gellir ei osgoi.

Adroddiad Cynaliadwyedd ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2011/12

Trosolwg

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod cysylltiad annatod rhwng datblygu cynaliadwy ac iechyd cyhoeddus a bod angen camau sy'n ategu ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu Cymru mewn perthynas â'r ddau faes. Felly, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymedig i sefydlu a datblygu sefydliad cydlynus, effeithiol a chynaliadwy a sicrhau bod ei raglenni a'i wasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol er mwyn sicrhau'r canlyniadau mwyaf cynaliadwy i bobl Cymru. Wrth geisio cyflawni hyn, a'n huchelgais i wneud Cymru'n wlad iachach, hapusach a thecach, byddwn yn ymgorffori datblygu cynaliadwy fel egwyddor ganolog yn ein sefydliad.

Yn ystod 2011/12, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio ar ddatblygu Strategaeth Datblygu Cynaliadwy, sy'n anelu at adlewyrchu'r ymrwymiad a amlinellir uchod. Bydd y strategaeth, a fydd yn cael ei gweithredu o 2012/13 ymlaen, yn cwmpasu datblygu cynaliadwy yn ei ystyr ehangach ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwaith y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei wneud mewn perthynas â chymunedau cynaliadwy, iechyd rhyngwladol a ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd. Bydd y strategaeth hon yn seiliedig ar gyfres o bolisiau a chynlluniau gweithredu, gan gynnwys Cynllun Gweithredu ar Leihau Carbon. Drwy'r dull hwn nod Iechyd Cyhoeddus Cymru yw bod yn sefydliad enghreifftiol ac yn ddinesydd corfforaethol da.

Y prif gyflawniadau yn ystod 2011/12

- ▶ Datblygu Strategaeth Datblygu Cynaliadwy ddrafft, yn cynnwys ymgysylltu â'r staff
- ▶ Datblygu Strategaeth Adeiladau sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy fel un o'r prif egwyddorion
- ▶ Pennu cwmpas a chasglu'r wybodaeth sydd ar gael am berfformiad
- ▶ Buddsoddi £50,000 mewn gwelliannau technolegol, fel fideo-gynadledda, a fydd yn lleihau'r angen i staff orfod teithio
- ▶ Datblygu Polisi Rheoli Gwastraff drafft
- ▶ Datblygu Polisi Amgylcheddol drafft
- ▶ Gweithio ar lefel genedlaethol a lleol i gefnogi amrywiol brosiectau a mentrau cynaliadwy

Trosolwg o berfformiad

Diben yr adran hon yw darparu crynodeb o berfformiad Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2011/12 mewn perthynas ag allyriadau a gwastraff. Nod y wybodaeth a ddarperir yw cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cyrff y sector cyhoeddus i gyflwyno adroddiadau ar gynaliadwyedd. Fodd bynnag, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu trefniadau adrodd priodol a gwybodaeth sylfaenol o fewn y sefydliad.

Fel sefydliad sy'n cwmpasu Cymru gyfan, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru swyddfeydd mewn dros 40 o leoliadau, sy'n cynnwys adeiladau y mae sefydliadau eraill y GIG yn berchen arnynt, neu'n eu prydlesu, neu

adeiladau sy'n cael eu darparu gan/rhannu â sefydliadau'r GIG. Ar hyn o bryd, nid yw gwybodaeth ariannol a gwybodaeth nad yw'n wybodaeth ariannol am allyriadau, gwastraff ac adnoddau cyfyngedig ar gael ar gyfer pob un o'r adeiladau hyn. Felly, un o'r prif gamau ar gyfer 2012/13 fydd gwneud rhagor o waith i ddatblygu a mireinio mesurau perfformiad a phennu llinell sylfaen gywir i ategu gwelliannau ar gyfer y dyfodol. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan Adolygiad o Adeiladau De Ddwyrain Cymru, a gynhelir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2012/13. Bydd yr adolygiad yn ystyried rhesymoli adeiladau ac mae wedi nodi datblygu cynaliadwy fel un o'r prif egwyddorion wrth gynnal yr adolygiad.

Crynodeb o berfformiad 2011/12

Maes	Perfformiad 2011/12		
	Dangosydd Ariannol	Swm	Defnydd (Allyriadau CO ₂)
Teithiau busnes swyddogol (ac eithrio trenau ac awyrennau)	£663,487.14	1,560,254 (cyfanswm y milltiroedd busnes)	513.71 o dunelli CO ₂ ¹
Ynni'r ystâd - trydan	£125,240.81 ²	371,067kWh ³	193.10kg CO ₂ ⁴
Ynni'r ystad – nwy	£43,169.57 ⁵	576,551kWh ⁶	299.89kg CO ₂ ⁷
Dŵr yr Ystad	£10,131.00 ⁸	2,628Cu.metres ⁹	Dd/G
Gwastraff Ynni	£45,386.47 ¹⁰	Dd/G	Dd/G
Cyfanswm	£887,414.99	Dd/G	Dd/G

1. Yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd canlynol - 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; 18 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; 24 Alexandra Rd; 4ydd Llawr, Tŷ Churchill; Uned Bodnant; Llys Castan; Nantgarw; y Deml Heddwch; Stryd y Berllan; Uned 4, 5 a 6 Magden Park; Canolfan Sgrinio'r Fron Gogledd Orllewin Cymru yn Llandudno
2. Yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd canlynol - 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; Parc Dewi Sant; y Deml Heddwch; Parc Technoleg Wrecsam; Canolfan Sgrinio'r Fron Gogledd Cymru yn Llandudno; 24 Heol Alexandra
3. Yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd canlynol - 18 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; 24 Heol Alexandra; Uned Bodnant; Nantgarw; Y Deml Heddwch; Stryd y Berllan; Wrecsam; Canolfan Sgrinio'r Fron Gogledd Cymru yn Llandudno
4. Yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd canlynol - 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; Parc Dewi Sant; Y Deml Heddwch; Parc Technoleg Wrecsam
5. Yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd canlynol - 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; 18 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; 24 Heol Alexandra; 4ydd Llawr, Tŷ Churchill; Uned Bodnant; Tŷ Brunel; Llys Castan; Nantgarw; Tŷ Oldway; Y Deml Heddwch; Microbiolog Ysbyty Athrofaol Cymru; Uned 4, 5 a 6 Magden Park; Microbiolog y Rhyll; Wrecsam; Canolfan Sgrinio'r Fron Gogledd Cymru yn Llandudno
6. Yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd canlynol - 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; Parc Dewi Sant; Y Deml Heddwch; Parc Technoleg Wrecsam

7. Gan ddefnyddio'r Cyfrifydd Ôl Troed Carbon <http://www.carbonfootprint.com/calculator.aspx>
8. Yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd canlynol: 18 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; 24 Heol Alexandra; Uned Bodnant; Llys Castan; Tŷ Clwydian; Nantgarw; Y Deml Heddwch; Microbiolog Ysbyty Athrofaol Cymru; 36 Stryd y Berllan; Wrecsam; Canolfan Sgrinio'r Fron Gogledd Cymru yn Llandudno
9. Yn cynnwys gwybodaeth am y safleoedd canlynol - 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; Parc Dewi Sant; Y Deml Heddwch; 24 Heol Alexandra; Parc Technoleg Wrecsam
10. Cynhwysir gwybodaeth am y safleoedd canlynol - 14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; 16 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; 18 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol; 24 Heol Alexandra; 4ydd Llawr, Tŷ Churchill; Uned Bodnant; Tŷ Brunel; Llys Castan; Nantgarw; Tŷ Oldway; Y Deml Heddwch; Microbiolog Ysbyty Athrofaol Cymru; Uned 4, 5 a 6 Magden Park; Microbiolog y Rhyll; Wrecsam; Canolfan Sgrinio'r Fron Gogledd Cymru yn Llandudno

Y prif dargedau ar gyfer 2011/12

- ▶ Cymeradwyo a chychwyn gweithredu Strategaeth Datblygu Cynaliadwy
- ▶ Datblygu mesurau perfformiad datblygu cynaliadwy ymhellach a phennu llinellau sylfaen y cytunwyd arnynt
- ▶ Adolygiad o Adeiladau De Ddwyrain Cymru
- ▶ Datblygu Cynllun Gweithredu i Leihau Carbon
- ▶ Datblygu Polisi Ceir Prydles diwygiedig, yn cynnwys car sylfaen sy'n fwy effeithlon yn amgylcheddol

Adran 2

Adolygiad Gweithredol ac Ariannol

Cyflawnwyd pob targed ariannol

Unwaith eto, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflawni pob un o'i dargedau ariannol yn 2011/12.

Gydag incwm o £85,510 miliwn, llwyddodd y sefydliad i fantoli'r gyllideb a chofnodi gwarged bach o £0.024 miliwn.

Meddai'r Cyfarwyddwr Cyllid, Huw George: "Roedd hon yn flwyddyn arbennig o lwyddiannus lle roedd y sefydliad yn wynebu cryn bwysau ariannol heb unrhyw gyllid ychwanegol yn sgil chwyddiant neu dwf. Er mwyn cyflawni hyn gwnaethom arbedion ariannol o fwy na £2.8 miliwn.

"Gwyddom y byddwn yn wynebu pwysau ariannol am flynyddoedd i ddod ac mae'n bleser nodi y bydd staff ym mhob rhan o'r sefydliad yn parhau i geisio gwneud arbedion yn y dyfodol."

Yn sgil cyflawni rhaglen gyfalaf £4.8 miliwn yn llwyddiannus sicrhawyd bod lechyd Cyhoeddus Cymru yn cyrraedd ei darged i gyflawni ei derfyn cyllido allanol.

Yn ogystal llwyddodd y sefydliad i gyrraedd ei darged o ran cydymffurfio â thaliadau credydwyd gan sicrhau bod 95.6 y cant o anfonebau nad ydynt yn anfonebau'r GIG yn cael eu talu o fewn 30 niwrnod, gan wella

ymhellach ar berfformiad blaenorol.

Cytunodd Bwrdd lechyd Cyhoeddus Cymru y byddai, yn y tymor canolig, yn sefydlu egwyddor ar gyfer y gyllideb bod angen iddo 'fuddsoddi i newid' ac 'arbed i fuddsoddi'. Dros y tair blynedd nesaf mae'r sefydliad wedi cytuno y bydd yn anelu at fuddsoddi rhwng 0.8 ac 1 y cant bob blwyddyn ac y byddai'n disgwyl, fel mater o drefn, i ddeiliaid cyllidebau sicrhau arbedion cynnal a chadw o 1.5 y cant.

Ar gyfer 2012/13 nodwyd bwch cyllido o £1.6 miliwn, a gaewyd er mwyn mantoli'r gyllideb.

Summary of Financial Statements for 2011-12

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys y datganiadau ariannol ar gyfer lechyd Cyhoeddus Cymru am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2011 a 31 Mawrth 2012. Mae'r

Datganiadau Ariannol Cryno yn grynodedb o'r cyfrifon ariannol llawn ar gyfer lechyd Cyhoeddus Cymru y cyhoeddwyd barn ddiamedd arnynt, ac maent yn gyson â'r

cyfrifon hynny. I gael dealltwriaeth lawn o sefyllfa a pherfformiad ariannol lechyd Cyhoeddus Cymru, gellir darparu'r cyfrifon ariannol llawn ar gyfer 2011/12 ar gais.

Datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr

	Cyfalaf dididend cyhoeddus £000	Enillion a gadwyd £000	Cronfa ailbriso £000	Cronfeydd eraill £000	Cyfanswm £000
Balans ar 1 Ebrill 2011 wedi'i ailddatgan	14,141	446	45	0	14,632
Newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr ar gyfer 2011-12					
Gwarged/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn		12			12
Enillion net ar ailbriso eiddo, peiriannau ac offer		0	142	0	142
Enillion net ar ailbriso asedau anghyffwrddadwy		0	0	0	0
Enillion net ar ailbriso asedau ariannol					
Enillion net ar ailbriso asedau a gedwir i'w gwerthu		0	0	0	0
Amhariadau a gwyrddroadau		0	0	0	0
Symudiadau mewn cronfeydd eraill		0	0	0	0
Asedau a roddwyd/asedau gan y llywodraeth		0	0	0	0
Gwaredu asedau a roddwyd/asedau gan y llywodraeth		0	0	0	0
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd		0	0	0	0
Enillion/colledion net ar Gronfeydd Eraill (noder)		0	0	0	0
Addasiad aildosbarthu ar ôl gwaredu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu		0	0	0	0
Cronfeydd a ddilëwyd yn sgil diddymu	0				0
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus newydd a dderbyniwyd	1,706				1,706
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ad-dalwyd yn ystod y flwyddyn	0				0
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ddilëwyd	0				0
Symudiadau eraill mewn Cyfalaf Difidend Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn	(251)				(251)
Balance at 31 March 2012	15,596	458	187	0	16,241

Datganiad o incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

	2011-12 £000s	2010-11 £000s
Refeniw o weithgareddau gofal cleifion	66,008	63,765
Refeniw gweithredu arall	19,502	18,015
Treuliau gweithredu	(85,491)	(81,819)
Gwarged /(diffyg) gweithredu	19	39
Refeniw buddsoddi	25	14
Enillion a cholledion eraill	(20)	1
Costau cyllid	(12)	0
Gwarged / (diffyg) a gadwyd	12	(24)

Datganiad o lif arian ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012

	2011-12 £000s	2010-11 £000s
Llif arian o weithgareddau gweithredu	19	(39)
Dibrisiant ac amorteiddiad	1,599	1,233
Amhariadau a gwyrddodau	85	0
Llog a dalwyd	(12)	0
(Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestrau	311	38
(Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	(1,741)	1,664
(Cynnydd)/gostyngiad mewn asedau cyfredol eraill	0	0
Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a nwyddau taladwy eraill	920	(2,540)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn rhwymedigaethau cyfredol eraill	2,113	0
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	1,521	745
Mewnlif / (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu	4,815	1,101
Llif arian o weithgareddau buddsoddi		
Llog a dderbyniwyd	25	14
(Taliadau) am eiddo, peiriannau ac offer	(4,811)	(6,843)
Elw o waredu eiddo, peiriannau ac offer	(4)	1
Mewnlif /(all-lif) net o weithgareddau buddsoddi	(4,790)	(6,828)
Mewnlif/(all-lif) arian parod cyn cyllido	25	(5,727)
Llif arian o weithgareddau cyllido		
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a dderbyniwyd	1,455	5,749
Mewnlif /(all-lif) arian parod net o weithgareddau cyllido	1,455	5,749
Cynnydd/ (gostyngiad) net mewn arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	1,480	22
Arian parod [a] symiau sy'n gyfwerth ag arian parod [a] gorddrafftiau banc] ar ddechrau'r flwyddyn ariannol	2,488	2,466
Arian parod [a] symiau sy'n gyfwerth ag arian parod [a] gorddrafftiau banc] ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	3,968	2,488

Datganiad o'r sefyllfa ariannol fel ar 31 Mawrth 2012

	31 Mawrth 2012 £000s	31 Mawrth 2011 £000s
Asedau nad ydynt yn gyfredol		
Eiddo, peiriannau ac offer	17,590	8,576
Asedau anghyffwrddadwy	0	0
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	0	0
Asedau ariannol eraill	0	0
Asedau eraill	0	0
Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol	17,590	8,576
Asedau cyfredol		
Stocrestrau	111	422
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	5,493	3,752
Asedau ariannol eraill	0	0
Asedau eraill	0	0
Arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod	3,968	2,488
Cyfanswm yr Asedau Cyfredol	9,572	6,662
Cyfanswm yr asedau	27,162	21,143
Rhwymedigaethau cyfredol		
Masnach a symiau taladwy eraill	(5,413)	(4,637)
Benthyciadau	0	0
Rhwymedigaethau ariannol eraill	(450)	0
Darpariaethau	(2,268)	(729)
Rhwymedigaethau eraill	0	0
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol	(8,131)	(5,366)
Asedau /(rhwymedigaethau) cyfredol net	1,441	1,296
Cyfanswm yr asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol	19,031	15,777
Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol		
Masnach a symiau taladwy eraill	0	0
Benthyciadau	0	0
Rhwymedigaethau ariannol eraill	(1,663)	0
Darpariaethau	(1,127)	(1,145)
Rhwymedigaethau eraill	0	0
Total non-current liabilities	(2,790)	(1,145)
Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol	16,241	14,632
Ariannwyd gan ecwiti'r trethdalwr:		
Cyfalaf difidend cyhoeddus	15,596	14,141
Enillion a gadwyd	458	446
Cronfa ailbriso	187	45
Cronfa asedau a roddwyd		
Cronfa grant y llywodraeth		
Cronfeydd eraill	0	0
Cyfanswm ecwiti'r trethdalwr	16,241	14,632

Adran 3

Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Prif Weithredwr

Cwmpas y Cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd yn atebol am lywodraethu a rheolaeth fewnol. Fel Swyddog Atebol a Phrif Weithredwr y Bwrdd mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethu priodol yn ogystal â system rheolaeth ariannol gadarn sy'n cynorthwyo'r sefydliad i gyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion, a diogelu arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad, sef yr hyn yr wyf yn bersonol gyfrifol amdano. Caiff y rhain eu gweithredu yn unol â'r cyfrifoldebau a gaiff eu haseinio gan Swyddog Cyfrifyddu GIG Cymru.

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, fi sy'n bersonol gyfrifol am reoli a staffio'r sefydliad. Mae'n ofynnol i mi sicrhau fy hunan, ac felly'r Bwrdd, bod trefniadau rheoli ar lefel swyddogion gweithredol y sefydliad yn addas at y diben ac yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ar lefel swyddogion gweithredol.

Fframwaith Llywodraethu

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolaethau'r GIG weithredu o fewn y fframwaith llywodraethu ehangach a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru ac ymgorffori'r safonau llywodraethu da a bennwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru (fel y diffinnir yn yr egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd a Safonau Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru), ynghyd â'i fframweithiau cynllunio a rheoli perfformiad.

Caiff egwyddorion y Cod Ymddygiad ac Atebolrwydd ar gyfer y GIG yng Nghymru eu

cefnogi'r llawn gan yr Ymddiriedolaeth. Adolygwyd ei pholisiau llywodraethu yn unol â'r canllawiau penodol ac ysbryd y codau ymarferol sy'n berthnasol i'r ffordd y darperir gwasanaethau gofal iechyd.

Rhaid i Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru gytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes. Eu nod yw trosglwyddo'r gofynion statudol a amlinellir yn Rheoliadau Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefnau) yn ymarfer gweithredol o ddydd i ddydd.

Ynghyd â mabwysiadu cynllun o benderfyniadau a gedwir ar gyfer y Bwrdd, cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer sut y dylai'r Ymddiriedolaeth ymgymryd â'i busnes.

Y dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiau corfforaethol a bennir gan y bwrdd a mabwysiadu'r fframwaith Gwerthoedd a Safonau, sy'n llunio'r Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff penderfynu corfforaethol, gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu'r cyfrifoldeb corfforaethol dros holl benderfyniadau'r Bwrdd

Yn benodol, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb dros gyfeiriad strategol, fframwaith llywodraethu, diwylliant a datblygiad sefydliadol, datblygu cysylltiadau cryf â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol a chyflawni nodau ac amcanion lechyd

Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal, mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gyfrifoldeb ar lefel y Bwrdd am gyflawni swyddogaethau corfforaethol ac iechyd cyhoeddus lechyd Cyhoeddus Cymru.

Caiff y Bwrdd ei gefnogi gan Ysgrifennydd y Bwrdd, sy'n gweithredu fel prif gynghorydd ar bob agwedd ar lywodraethu yn lechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu strwythur Pwyllgorau sydd, ym marn y Bwrdd, yn diwallu anghenion y sefydliad orau gan ystyried unrhyw ofynion rheoleiddio neu ofynion Llywodraeth Cymru ar yr un pryd. Mae'r Pwyllgorau'n cynnwys y canlynol:

- ▶ Pwyllgor Archwilio
- ▶ Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
- ▶ Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth
- ▶ Pwyllgor Tâl

Yn ogystal, mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu Pwyllgor Cronfeydd Elusennol. Nid yw'r Pwyllgor hwn wedi cyfarfod, gan fod cronfeydd elusennol yn cael eu gweinyddu gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar hyn o bryd ar ran lechyd Cyhoeddus Cymru. Er budd cost-effeithiolrwydd, mae trafodaethau ar y gweill gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre ynghylch sut y gall y ddwy Ymddiriedolaeth barhau i reoli cronfeydd elusennol ar y cyd.

Caiff Pwyllgorau'r Bwrdd eu cadeirio gan Gyfarwyddwyr Anweithredol ac mae Cadeiryddion y Pwyllgorau'n cyflwyno adroddiadau am bob cyfarfod yn uniongyrchol i'r Bwrdd.

Presenoldeb aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Bwrdd

	Bwrdd	Archwilio	Ansawdd a Diogelwch	Llywodraethu Gwybodaeth	Tâl
Cyfarwyddwyr Anweithredol					
Yr Athro Syr Mansel Aylward CB	3*				1*
Mr John Spence	5	3	4	2	4
Dr Carl Clowes	5	5	4	3	4
Mr Terry Rose	2**				1**
Yr Athro Simon Smail	6		4		5
Yr Athro Gareth Williams	5		4		5
Dr Jo Farrar	4	5		3	2
Cyfarwyddwyr Gweithredol					
Mr Bob Hudson	6	5	2	2	
Mr Huw George	6	5			
Dr Hilary Fielder	5		4	3	
Dr Peter Bradley	2**				
Mr Mark Dickinson	5		3	3	
Cyfanswm	6	5	4	3	5

*Roedd yr Athro Syr Mansel Aylward ar gyfnod sabothol o dri mis yn ystod 2011/12 sy'n golygu mai dim ond cyfanswm o bedwar cyfarfod Bwrdd a thri chyfarfod y Pwyllgor Tâl yr oedd modd iddo fod yn bresennol ynddynt. Ymgwymerodd John Spence â swyddogaeth y Cadeirydd yn ystod y cyfnod hwn.

** Penodwyd Dr Peter Bradley a Terry Rose i Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Tachwedd 2011, felly dim ond cyfanswm o ddau gyfarfod Bwrdd yr oedd modd iddynt fod yn bresennol ynddynt. Dim ond yn cyfarfod o'r Pwyllgor Tâl y gallai Terence Rose fod wedi bod yn bresennol ynddo.

Y Pwyllgor Archwilio

Mae tri Chyfarwyddwr Anweithredol ar y Pwyllgor Archwilio, yn cynnwys y Cadeirydd, ac mae'n cyfarfod bob chwarter.

Yng Nghylch Gwaith y Pwyllgor Archwilio nodir ei fod yn gyfrifol am ddarparu cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd a'r Swyddog Atebol ynghylch p'un a oes trefniadau effeithiol ar waith drwy gynllun a gweithrediad fframwaith sicrwydd yr Ymddiriedolaeth a chefnogi'r Bwrdd i wneud penderfyniadau a chyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei hamcanion, yn unol â'r safonau llywodraethu da a bennir ar gyfer y GIG yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi'i awdurdodi gan y Bwrdd i ymchwilio i unrhyw weithgaredd (clinigol neu anghlinigol) o fewn ei gylch gwaith, neu i drefnu i hynny ddigwydd. Wrth wneud hynny, mae gan y Pwyllgor yr hawl i archwilio unrhyw lyfrau, cofnodion neu ddogfennau sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth ac sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, gan sicrhau cyfrinachedd y claf/cleient a'r staff, fel y bo'n briodol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio bum gwaith yn ystod 2011/12 a chafwyd cworwm ym mhob cyfarfod. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio adroddiad i'r Bwrdd yng nghyfarfod ffurfiol y Bwrdd yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor. Yn ogystal, cynhyrchedd y Pwyllgor Archwilio Adroddiad Blynyddol ar ei fusnes, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Hydref 2011. Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan lechyd Cyhoeddus Cymru (<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/46705>). Cytunwyd y bydd agendâu a phapurau'r Pwyllgor ar gael i'r cyhoedd yn ystod 2012/13.

Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch

Mae pedwar Cyfarwyddwr Anweithredol ar y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, gan gynnwys y Cadeirydd, ac mae'n cyfarfod bob chwarter.

Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gyfrifol am gael sicrwydd bod y trefniadau llywodraethu (yn cynnwys rheoli risg) wedi'u cynllunio'n briodol ac yn gweithredu'n effeithiol i sicrhau gofal iechyd, darpariaeth iechyd cyhoeddus a gwasanaethau diogel o'r ansawdd uchaf, ar draws holl weithgareddau'r Ymddiriedolaeth.

Awdurdodir y Pwyllgor gan y Bwrdd i ymchwilio i unrhyw weithgaredd o fewn ei gylch gwaith neu i drefnu i wneud hynny. Wrth wneud hynny, mae gan y Pwyllgor yr hawl i archwilio unrhyw lyfrau, cofnodion neu ddogfennau'r Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, gan sicrhau cyfrinachedd cleifion/cleientiaid a staff, fel y bo'n briodol.

Cyfarfu'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch bedair gwaith yn ystod 2011/12 a chafwyd cworwm ym mhob cyfarfod. Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch adroddiad i'r Bwrdd yng nghyfarfod ffurfiol y Bwrdd yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor. Yn ogystal cynhyrchedd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Adroddiad Blynyddol ar ei fusnes, a gyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Awst 2011. Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan lechyd Cyhoeddus Cymru (<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/46705>). Cytunwyd y bydd agendâu a phapurau'r Pwyllgor ar gael i'r cyhoedd yn ystod 2012/13.

Ni wnaethpwyd unrhyw setliadau dan gynllun Unioni Camweddau GIG Cymru yn ystod 2011/12.

Y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth

Mae tri Chyfarwyddwr Anweithredol ar y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, gan gynnwys y Cadeirydd, ac mae'n cyfarfod bob chwarter.

Mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru drefniadau sefydledig ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei thrin yn unol â'r gyfraith Llywodraethu Gwybodaeth berthnasol, y rheoliadau a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r trefniadau'n cynnwys Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan, Gwarcheidwaid Caldicott ar gyfer yr Ymddiriedolaeth a'i His-adrannau, Gwarcheidwad Caldicott ar gyfer Cronfeydd Data Cenedlaethol ac arweinwyr Llywodraethu Gwybodaeth mewn Is-adrannau.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn gyfrifol am sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu cynnal ac y cedwir atynt.

Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu gwybodaeth deirgwaith yn ystod 2011/12 a chafwyd cworwm ym mhob cyfarfod. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn rhoi adroddiad i'r Bwrdd yng nghyfarfod ffurfiol y Bwrdd yn dilyn pob cyfarfod o'r Pwyllgor. Mae copïau o'r adroddiadau ar gael ar wefan lechyd Cyhoeddus Cymru (<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/46705>). Cytunwyd y bydd agendâu a phapurau'r Pwyllgor ar gael i'r cyhoedd yn ystod 2012/13.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn cael crynodebau ac adroddiadau ar bob digwyddiad Llywodraethu Gwybodaeth ac achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd drwy system rheoli digwyddiadau'r Ymddiriedolaeth. Rhoddir adroddiad llawn i'r Pwyllgor am bob digwyddiad arwyddocaol. Yn ystod 2011/12, bu dau achos o fethiant mewn trefniadau diogelwch yn ymwneud â data yn lechyd Cyhoeddus Cymru; un yn ymwneud â gwybodaeth am gleifion a'r llall yn ymwneud â datgelu gwybodaeth. Ymdrinwyd â'r ddau achos hyn drwy brosesau mewnol lechyd Cyhoeddus Cymru.

Y Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cynnwys pob Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Bwrdd, ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r pwyllgor yn ystyried cyflogau a thermâu ac amodau gwasanaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch aelodau eraill o staff ac mae'n ystyried materion eraill sy'n gysylltiedig â chostau cyflogau fel ceisiadau dan y cynllun gwirfoddoli i adael swydd yn gynnar.

Cyfarfu'r Pwyllgor Tâl bum gwaith yn ystod 2011/12 a chafwyd cworwm ym mhob cyfarfod.

System Rheolaeth Fewnol

Cynlluniwyd y system rheolaeth fewnol i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg; felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall y system ei darparu ac nid sicrwydd absoliwt.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiau, nodau ac amcanion y sefydliad er mwyn gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben hyd 31 Mawrth 2012, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Rheoli Risg

Cynlluniwyd y System Rheolaeth Fewnol bresennol i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i'r sefydliad, i werthu'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe bai hynny'n digwydd, a'u rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd.

Ysgrifennydd y Bwrdd sy'n arwain ar Reoli Risg ac ar ddatblygu a chynnal system gadarn o brosesau rheoli risg. Mae Penaethiaid Is-adrannau yn rheoli risg yn eu priod feysydd ac wedi nodi uwch aelod os Taf ym mhob maes gwasanaeth sy'n gyfrifol am reol risg.

Sefydlwyd Grŵp Rheoli Risgiau, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Bwrdd, yn 2010 i oruchwylio materion yn ymwneud â rheoli risg o fewn y sefydliad. Mae'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o lechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod ac asesu pob agwedd ar risg o fewn y sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys y gofrestr risg, digwyddiadau, cwynion a hawliadau. Gall y Grŵp gyfeirio risgiau i'r Tîm Gweithredol ac i amrywiol Bwyllgorau'r Bwrdd, fel y bo'n briodol, a gall wneud argymhellion ar risgiau newydd a risgiau presennol. Mae'r Grŵp hefyd yn datblygu ac yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â risg.

Anogir pobl i adrodd ar risgiau ac mae gan y Grŵp Rheoli Risg swyddogaeth allweddol o ran cyfathrebu'r risgiau sylweddol sy'n dod i'r amlwg mewn timau/isadrannau. Mae rheoli risg yn elfen safonol ym mhob un o swydd ddisgrifiadau lechyd Cyhoeddus Cymru a nodir bod gan bob aelod o staff gyfrifoldeb i chwarae rhan ragweithiol yn y gwaith o reoli risg ym mhopeth a wnânt. Mae hyn yn golygu asesu risg ym mhob sefyllfa a chymryd camau priodol.

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru wedi datblygu Cofrestr Risgiau sefydliadol, sy'n cynnwys manylion y risgiau gweithredu a rheoli ar gyfer y sefydliad. Caiff risgiau eu sgorio a nodir y camau a gymerir i'w lliniaru. Caiff y risgiau eu dyrannu i arweinwyr Gweithredol a'u hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Grŵp Rheoli Risg. Caiff y Gofrestr Risgiau ei hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol yn ogystal ag ym mhob cyfarfod o'r pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a rhoddir adroddiad arni o leiaf unwaith y flwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd.

Log o'r risgiau a chanddynt y potensial i roi'r gwaith o gyflawni amcanion strategol yr Ymddiriedolaeth yn y fantol ac a allai gael effaith negyddol ar y sefydliad yw cofrestr risgiau gorfforaethol lechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gofrestr yn disgrifio'r risg, y sgôr risg ac yn amlinellu'r rheolaethau presennol. Dyrennir amser, a chaiff y Tîm Gweithredol ei gynnull i nodi risgiau strategol a chamau priodol i liniaru'r risgiau hynny.

Caiff y gofrestr risgiau gorfforaethol ei hategu gan broffil risgiau gweithredol. Mae'r risgiau ar y proffil risgiau gweithredol yn deillio o weithgareddau a phrosesau a wneir o fewn Is-adrannau i gyflawni amcanion y sefydliad. Nodir y risgiau wrth gyflawni'r gwaith ac fe'u hystyrir wrth iddynt godi. Ymdrinnir â hwy pan fyddant yn codi a'r staff sy'n gyfrifol am eu cofnodi.

Mae Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a Phwyllgor Archwilio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfarfod bob chwarter ac maent yn gyfrifol am adolygu'r Gofrestr Risgiau yn fanwl. Mae hyn hefyd yn gyfle i drafod unrhyw risgiau newydd/cynyddol. Yn ogystal mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth hefyd yn ymdrin â risgiau sy'n gysylltiedig â Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'r Gofrestr Risgiau yn ddogfen fyw ac o'r herwydd mae'n newid drwy gydol y flwyddyn.

Mae staff Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cadw at bolisiâu rheoli risg, sy'n amlinellu'r broses asesu risg ac sy'n cynnwys y gofynion

dogfennol. Caiff hyn ei ategu gan strategaethau a pholisiâu priodol sydd wedi'u cynllunio i i nodi, dadansoddi, gwerthuso, trin a monitro'r risgiau a allai atal Iechyd Cyhoeddus Cymru rhag cyflawni ei amcanion. Gwneir y staff yn ymwybodol o sut i gyfeirio'r risgiau a chofnodi digwyddiadau drwy hyfforddiant statudol a gorfodol. Fel rhan o weithredu'r system Rheol Risg Datix, y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei rhannu ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre, mae uwch staff allweddol wedi cael hyfforddiant. Bydd y rhaglen addysg hon yn parhau i gael ei chyflwyno wrth i fodiwlau Datix ychwanegol gael eu rhoi ar waith.

Darperir gwasanaeth archwilio mewnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gan Wasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae eu rhaglen adolygu yn rhoi barn annibynnol a gwrthrychol ar ddigonolrwydd y systemau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu drwy fesur a gwerthuso effeithiolrwydd.

Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Defnyddia Iechyd Cyhoeddus Cymru y ddogfen Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru fel ei fframwaith ar gyfer darparu sicrwydd ynghylch ei allu i gyflawni ei nodau a'i amcanion o ran darparu gwasanaethau iechyd diogel o'r ansawdd uchaf. Mae hyn yn golygu hunanasesu ei berfformiad yn erbyn y safonau ar gyfer pob un o'i weithgareddau ac ar bob lefel drwy'r sefydliad cyfan. Cynhelir gwerthusiad o'r hunanasesiad hwn gan y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd a datblygir cynllun gwella, sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Fel rhan o'r broses hon, mae'r sefydliad wedi cwblhau modiwl asesu Llywodraethu ac Atebolrwydd ac wedi cyflawni'r perfformiad canlynol ar gyfer 2012.

Modiwl Llywodraethu ac Atebolrwydd	Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru				
	Hyd yma dim dealltwriaeth glir o'r sefyllfa bresennol (na pha mor dda yw eu perfformiad) a beth / y meysydd y mae angen iddynt wella arnynt.	Yn ymwybodol o'r gwelliannau sydd eu hangen ac wedi eu blaenoriaethu ond nid ydynt eto'n gallu dangos eu bod wedi cymryd camau ystyrlon.	Yn datblygu cynlluniau a phrosesau ac yn gallu dangos cynnydd gyda rhai o'r prif feysydd i wella arnynt.	Cynlluniau a phrosesau manwl ar waith ac yn gallu dangos gwelliant cynaliadwy ar draws y sefydliad /busnes cyfan.	Yn gallu dangos arferion da cyson ac arloesedd sy'n cael eu rhannu drwy'r sefydliad/busnes cyfan, ac y gall eraill ddysgu ohonynt.
Pennu cyfeiriad			X		
Cyflawni			X		
Sicrhau canlyniadau o ran rhagoriaeth			X		
Aeddfedrwydd cyffredinol			X		

Cynhaliwyd proses sicrwydd mewnol annibynnol gan Bennaeth Archwilio Mewnol y sefydliad mewn perthynas â hyn. Mae gan y sefydliad gynlluniau ar waith i gyflawni'r gwelliannau a nodwyd o fewn amserlenni pendant sy'n gymesur i'r risg. Bydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn gyfrifol am fonitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd. Cynrychiolir Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y Grŵp Defnyddwyr Offer Hunanasesu Safonau Gofal Iechyd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymgorffori'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yn ei weithgareddau a'i strwythurau wrth iddynt ddatblygu. Yn ogystal, mae'r Safonau Gofal Iechyd diwygiedig wedi'u cynnwys ym Mholisiâu a Gweithdrefnau Iechyd Cyhoeddus fel y bo'n briodol.

Gan barhau â'r dull hunanasesu, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn hunanasesu'r trefniadau llywodraethu o fewn y sefydliad. Gan ddefnyddio Modiwl Atebolrwydd y Llywodraeth fel canllaw, gwneir asesiadau yn erbyn ystod eang o swyddogaethau a gweithgareddau llywodraethu. Caiff yr asesiad ei gwblhau gyda chyfranogiad llawn y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad bod y trefniadau llywodraethu sydd ar waith ar gyfer Iechyd

Cyhoeddus Cymru, at ei gilydd, yn gadarn a'i fod yn 'datblygu cynlluniau a phrosesau sy'n gallu dangos cynnydd mewn rhai o'r prif y mae angen i ni wella arnynt.'

Perfformiad Strategol a Chorfforaethol

Asesiad o Berfformiad y Bwrdd

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru drefniadau cadarn i asesu perfformiad y Bwrdd ac aelodau unigol o'r Bwrdd. Yn ystod 2011/12, cynhaliodd y Cadeirydd gyfres o arfarniadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn gydag aelodau'r Bwrdd, gan asesu eu perfformiad yn erbyn cyfres o amcanion cenedlaethol, sefydliadol a phersonol. Bu'r trafodaethau hyn yn sail i gyfres o gyfarfodydd Bwrdd anffurfiol a diwrnodau cwrdd i ffwrdd, lle y cafwyd cyfle i fynd i'r afael ag anghenion datblygu ac i fyfyrion ar gyfeiriad strategol a pherfformiad y Bwrdd a'r sefydliad ers ei sefydlu yn 2009.

Cyfarwydddebau Gweinidogol

Mae rhaglenni a gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cymryd camau yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang sy'n cyfrannu'n sylweddol at y weledigaeth pum mlynedd ar gyfer GIG Cymru a amlinellir yn Law yn Llaw at Iechyd, a gyhoeddwyd gan y

Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2011. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfrannu at y weledigaeth hon drwy; Brosiect Pennu Trywydd Iechyd Atgenhedloll a'r Blynyddoedd Cynnar, cefnogi'r gwaith o gyflawni'r camau a nodir yn Ein Dyfodol Iach a Chanlyniadau Iechyd Tecach i Bawb: Cynllun Gweithredu Strategol i Leihau Anghydraddoldebau Iechyd, sicrhau'r buddiannau mwyaf o'r Prosiect Ailalinio Trefniadau Darparu Gwasanaethau, y rhaglen 1000 o Fwydau a Mwy a gwella llythrennedd Iechyd a gwybodaeth y cyhoedd.

Fframwaith Strategol Iechyd Cyhoeddus

Cymeradwyodd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru Fframwaith Iechyd Cyhoeddus Strategol ym mis Awst 2011. Mae'r fframwaith yn amlinellu nifer o flaenoriaethau penodol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys gweithredu'r Prosiect Pennu Trywydd Iechyd Atgenhedloll a'r Blynyddoedd Cynnar, cryfhau'r cymorth a roddir i Gyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus, ad-drefnu rhaglenni sgrinio a'u rhoi ar waith ac ad-drefnu'r gwasanaethau microbiolog. Bydd y fframwaith yn cael ei ddiweddarau ac yn cael ei ystyried gan y Bwrdd yn 2012.

1,000 o Fwydau a Mwy

Mae 1,000 o Fwydau a Mwy yn parhau i chwarae rhan sylweddol o ran cynorthwyo sefydliadau ac unigolion i ddarparu'r gofal iechyd mwyaf diogel o'r ansawdd uchaf i bobl Cymru. Canolbwyntia'r rhaglen ar greu capasiti a chynnal a lledaenu gwelliannau. Cefnoga staff rheng flaen ledled Cymru drwy 'feysydd' sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac mae'n darparu arweinyddiaeth glinigol drwy ei Chyfadrannau. Mae'n ymrwymedig i gynnwys cleifion a myfyrwyr mewn gwaith gwella ansawdd ac yn hyrwyddo methodoleg gwella ansawdd a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyd-gadeirydd Bwrdd y Rhaglen 1000 o Fwydau a Mwy, sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo'n ffurfiol i arwain ar ddwy o ffrydiau gwaith y rhaglen - sicrhau bod gofal yn seiliedig ar y dystiolaeth orau a sicrhau ffocws ar ganlyniadau gwell.

Argyfyngau Sifil/Parhad Busnes

Yng Nghynllun Ymateb i Argyfyngau Iechyd Cyhoeddus Cymru ceir manylion ynghylch sut y bydd y sefydliad yn ymateb i ystod o ddigwyddiadau a bygythiadau, yn cynnwys y rhai sy'n deilio o newid yn yr hinsawdd. Mae'r cynllun yn rhoi fframwaith cyffredinol ar gyfer ymateb y sefydliad i ddigwyddiadau ac achosion, yn cynnwys defnyddio adnoddau ychwanegol.

Ar hyn o bryd mae gwaith ar y gweill i ddatblygu Strategaeth Datblygu Cynaliadwy lefel uchel Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y strategaeth yn cwmpasu datblygu cynaliadwy yn ei ystyr ehangaf ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwaith a wneir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chymunedau cynaliadwy, iechyd rhyngwladol a ffactorau ehangach sy'n dylanwadu ar iechyd. Bydd y strategaeth yn cyfeirio at bolisiau a chynlluniau gweithredu perthnasol, gan gynnwys Cynllun Gweithredu i Leihau Carbon Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.

Mae prif adrannau Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel Sgrinio, Diogelu Iechyd a Microbiolog, wedi rhoi trefniadau parhad busnes ar waith. Fel rhan o'r trefniadau hyn, mae staff perthnasol yn ymwybodol o'u dyletswyddau fel yr amlinellir yn y cynlluniau. Profwyd y seilwaith rheoli gwybodaeth a thechnoleg i sicrhau bod y rhwydwaith ar gael ar draws nifer o safleoedd os bydd argyfyngau lleol yn codi neu os bydd problemau nas rhagwelwyd mewn un neu fwy o adeiladau.

Cafodd trefniadau parhad busnes Iechyd Cyhoeddus Cymru eu hadolygu gan y tîm Archwiliad Mewnol ym mis Tachwedd 2011 a rhoddwyd sicrwydd digonol i'r trefniadau.

Cydraddoldeb

Gwnaethpwyd cryn dipyn o waith yn ystod 2011/12 mewn perthynas â datblygu Cynllun Cydraddoldeb Sengl i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fel rhan o'r broses hon, cynhaliwyd sesiynau strategol penodol ar gyfer y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol i ystyried y ddeddfwriaeth newydd a datblygiad cynllun. Cyflwynwyd y

Cynllun Cydraddoldeb Sengl newydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar, a bu'n gyfle i atgyfnerthu ymrwymiad y sefydliad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r cynllun strategol yn amlinellu egwyddorion ein hymrwymiad a'r camau ymarferol yr ydym yn eu cymryd i roi'r ymrwymiad hwn ar waith. Er enghraifft, cynhelir asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb o bob polisi a strategaeth newydd a diwygiedig.

Staff

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymgysylltu'n systemataidd â'r staff mewn nifer o ffyrdd. Mae gennym Gyfnwidfa Wybodaeth, cynhadledd staff, fforwm uwch reolwyr a fforwm genedlaethol sydd oll yn cael eu defnyddio i gynnal sgysiau â'r staff wyneb yn wyneb. Fe'u defnyddir ochr yn ochr â blog agored, fforwm ar y we a rhith ffyrdd eraill i staff rannu eu gwaith a'u barn.

Ar sail prosiectau unigol a materion unigol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymgysylltu â'r staff drwy ddefnyddio gweithdai, sesiynau briffio, y we, yr e-bost ac yn gynyddol, fersiynau o'r cyfryngau cymdeithasol.

Caiff cyflogeion presennol a chyn gyflogeion Iechyd Cyhoeddus Cymru eu cynnwys yn narpariaethau Cynllun Pensiwn y GIG. Mae Nodyn 11 o'r cyfrifon yn rhoi manylion y cynllun, sut mae'n gweithredu a hawl cyflogeion.

Adolygiad o effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gennyf gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar waith yr archwilwyr mewnol a swyddogion gweithredol y sefydliad a chanddynt gyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol. Bydd fy adolygiad hefyd yn ystyried sylwadau a wnaethpwyd gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

Cylch gwaith y Gwasanaeth Archwilio a Sicrwydd yw:

- ▀ rhoi trosolwg o sefydlu trefniadau rheoli risg a llywodraethu'r sefydliad;
- ▀ adolygu trefniadau Safonau Gwasanaethau Iechyd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn arbennig y rhai sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol; ac
- ▀ adolygu prosesau ar gyfer monitro a rheoli'r systemau ariannol a'r wybodaeth ariannol yn cynnwys y rhai a ddarperir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Daw Datganiad Sicrwydd ac Adroddiad Blynyddol 2011/12 yr Archwiliad Mewnol i'r casgliad canlynol:

'Gall y Bwrdd fod â sicrwydd rhesymol bod y trefniadau y mae'r sefydliad yn dibynnu arnynt i reoli risg, rheolaeth a llywodraethu yn y meysydd sy'n cael eu hadolygu, a'r gydymffurfiaeth sefydliadol a nodir, wedi'u cynllunio'n addas ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol. Fodd bynnag, nodwyd rhai materion a fydd, onid eir i'r afael â hwy, yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd risgiau'n codi'.

Mae Gwasanaeth Gwrth Dwyll Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cwblhawyd y cynllun gwaith ar gyfer 2011/12 ac roedd yn cwmpasu'r holl ofynion a oedd yn gynwysedig yng Nghyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru. Mae'n darparu adroddiadau a diweddariadau rheolaidd i aelodau o'r Tîm Gweithredol ac yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Archwilio. Darperir adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio, sydd hefyd yn cael adroddiad Blynyddol NHS Protect sy'n cynnal Asesiad Ansoddol o'r Ymddiriedolaeth. Yn yr asesiad diweddaraf gwellwyd gwelliant yn sgôr yr Ymddiriedolaeth.

Yn ogystal mae gan y Tîm Gweithredol strwythur llywodraethu cadarn sy'n sicrhau bod y defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r Ymddiriedolaeth yn cael ei fonitro a'i reoli. Creffir ar y trefniadau monitro ariannol, perfformiad gwasanaethau, gwybodaeth am ansawdd a'r gweithlu mewn cyfarfodydd o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ac mewn amrywiol gyfarfodydd o'r tîm gweithredol.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth broses gynllunio flynyddol ddatblygedig, gan gynnwys Fframwaith Strategol Iechyd Cyhoeddus, sy'n ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni cynlluniau gwasanaeth y sefydliad er mwyn cefnogi'r amcanion strategol. Yn y cynlluniau blynyddol hyn ceir manylion y gweithlu a'r adnoddau ariannol sydd eu hangen er mwyn cyflawni amcanion y gwasanaeth a chynnwys nodi gwelliannau o ran cost a meysydd lle y gellir gwneud arbedion. Mae cyflawni cynlluniau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn dibynnu ar gyflawni'r gwelliannau sy'n gysylltiedig â chostau a'r arbedion hyn. Mae'r Cynllun Ariannol yn sicrhau bod dyletswyddau ariannol statudol yn cael eu cyflawni, ond mae hefyd yn ceisio cynhyrchu arian aer mwyn datblygu gwasanaethau ymhellach. Fel rhan o adolygiad blynyddol o gyfrifon, caiff effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yr Ymddiriedolaeth o ran ei ddefnydd o adnoddau wrth gyflawni ei amcanion ei asesu gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Casgliad

Y farn gyffredinol yw nad oes materion llywodraethu o bwys wedi'u nodi ac felly, gellir rhoi sicrwydd rhesymol bod fframwaith llywodraethu gadarn ar waith, sydd wedi'i gynllunio i fodloni amcanion y sefydliad ac, yn gyffredinol, bod y fframwaith yn cael ei gymhwyso'n gyson



Bob Hudson
Prif Weithredwr,
Iechyd Cyhoeddus
Cymru

Adran 4

Adroddiad ar Dâl

Yn ystod 2011/12, cymeradwyodd Pwyllgor Tâl a Thermau Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflog gychwynnol a thermau ac amodau cyflogaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Iechyd Cyhoeddus ac uwch aelodau eraill o staff.

Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor Tâl geisiadau'n ymwneud â'r cynllun gwirfoddoli i adael swydd yn gynnar a chymeradwyo ceisiadau dan y cynllun hwnnw.

Caiff tâl a thermau ac amodau pob Cyfarwyddwr Gweithredol eu penderfynu gan y Pwyllgor Tâl o fewn y Fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae Pwyllgor Tâl a Thermau Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnwys yr Aelodau canlynol:

Cadeirydd y Pwyllgor Tâl:

Yr Athro Syr Mansel Aylward CB

Aelodau:

Dr Carl Clowes

Dr Jo Farrar

Mr John Spence

Yr Athro Simon Smail

Yr Athro Gareth Williams

Mr Terry Rose*

**Penodwyd Mr Terry Rose fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar 1 Tachwedd 2011*

Mae trefniadau tâl presennol y sector cyhoeddus yn berthnasol i bob aelod o staff, yn cynnwys Cyfarwyddwyr Gweithredol. Ar y sail honno, yn 2011/2012, ni chymeradwyodd y Pwyllgor Tâl unrhyw gynnydd mewn 'costau byw' i gyfarwyddwyr gweithredol.

Mae pob Cyfarwyddwr Gweithredol ar bwytiau cyflog, nid graddfeydd cyflog, ac nid ydynt wedi cael unrhyw gynnydd ychwanegol yn eu tâl yn ystod 2011/12.

Caiff perfformiad Cyfarwyddwyr Gweithredol ei asesu yn erbyn amcanion personol a

pherfformiad cyffredinol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwneud taliadau bonws.

Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol opsiwn i gael car ar brydles, o dan dermau cytundeb ceir prydles Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond ac eithrio'r angen i deithio'r nifer sylfaenol o filltiroedd busnes bob blwyddyn.

Nid oes iawndal yn cael ei dalu i gyn uwch-reolwyr. Yn ogystal, ni wnaethpwyd taliadau i drydydd partion am wasanaethau uwch reolwr.

Yn sgil gweithredu Agenda ar gyfer Newid, ni chafwyd mentrau bargeinio lleol ynghylch cyflogau yn ystod y flwyddyn ac nid oes mentrau o'r fath wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Dangosir manylion cyflogau a buddiannau pensiwn i uwch gyflogeion yn Atodiad 1 yr Adroddiad ar Dâl.

Mae'n ofynnol i Gyrff y GIG yng Nghymru ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf a thâl canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Roedd tâl wedi'i fandio y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y flwyddyn ariannol 2011-12 yn £144,822 (2010-11, £142,737). Roedd hyn 4.75 gwaith (2010-11, 4.84) tâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £30,459 (2010-11, £29,464). Roedd tâl y Prif Weithredwr yn £140,000 (2010-11 £140,000) sydd 4.60 gwaith (2010-11, 4.75) tâl canolrifol y gweithlu.

Yn 2011-12, cafodd 4 (2010-11, 5) o gyflogeion dâl a oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf. Roedd tâl yn amrywio o £9,360 i £155,477 (2010-11, £9,360 i £166,474).

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog, buddiannau mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys

cyfraniadau pensiwn cyflogwr a gwerthoedd trosglwyddo pensiwn sy'n gyfwerth ag arian parod. Mae'r cyflog yn cynnwys dyfardaliadau ymrwymiad meddygol, sesiynau ychwanegol wedi'u cynllunio a dyfardaliadau rhagoriaeth glinigol.

Penodwyd cyfarwyddwr gweithredol newydd i fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod 2011/12, a arweiniodd at gynnydd mewn gwerth ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf (o £142,737 yn 2010/11 i £144,833 yn 2011/12).

Yn ystod 2011/12, cafodd 14 aelod o staff iawndal sy'n dod i gyfanswm o £356,000 o dan y cynllun gwirfoddoli i adael swydd yn gynnar. Gweler tudalen 20 i gael rhagor o wybodaeth.

Hawliadau cyflog a phensiwn uwch gyflogeion 2011/12

Atodiad 1 – Tablau datgelu Cyflog a Phensiwn

Cyflogau a Lwfansau

Enw a Theitl	2011-2012				2010-2011			
	Cyflog blynyddol (bandiau o £5,000) £'000	Tâl Arall (bandiau o £5,000) £'000	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £'000	Buddiannau mewn nwyddau £00	Cyflog (bandiau o £5,000) £'000	Tâl arall (bandiau o £5,000) £'000	Taliadau Bonws (bandiau o £5,000) £'000	Buddiannau mewn nwyddau £00
Mr Bob Hudson, Prif Weithredwr	140-145			7	140-145			7
Dr Peter Bradley, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Iechyd Cyhoeddus ¹	60 - 65			0	0			0
Dr Hilary Fielder, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus ²	140-145			0	105-110			0
Mr Huw George, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	100-105			3	90 - 95			4
Mrs Ruth Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol ³	95-100			2	0			0
Mr Mark Dickinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad	90-95			9	90-95			6
Mr Keith Cox, Ysgrifennydd y Bwrdd/Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	85-90			3	85-90			2
Mr Chris Lines, Cyfarwyddwr Cyfathrebu	85-90			0	75 - 80			3

Cyfarwyddwyr Anweithredol:

Yr Athro Syr Mansel Aylward, Cadeirydd	40-45			0	40-45			10
Dr Carl Clowes	5-10			1	5-10			2
Dr Jo Farrar	0			0	0			0
Yr Athro Simon Smail	5-10			2	5-10			2
Mr John Spence	5-10			3	5-10			4
Mr Gareth Williams	0			0	0			0
Mr Terry Rose ⁴	0 -5			0	0			0

1. Penodwyd Mr Peter Bradley yn Gyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Iechyd Cyhoeddus ar 1 Tachwedd 2011

2. Penodwyd yr Athro Hilary Fielder yn Gyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus ar 21 Mehefin 2010

3. Penodwyd Mrs Ruth Davies yn Gyfarwyddwr Gweithredol Datblygu'r Gweithlu ar 4 Ebrill 2011

4. Penodwyd Mr Terry Rose yn gyfarwyddwr anweithredol ar 1 Tachwedd 2011.

Cymhareb Tâl

	2011-2012	2010-2011
Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog mwyaf £000oedd	140 - 145	140 - 145
Cyfanswm canolrifol y tâl £000s	30	29
Cymhareb	4.75	4.84

Buddiannau Pensiwn

Enw a Theitl	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 60 oed, (bandiau o £2,500) £000	Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn yn 60 oed, (bandiau o £2,500) £000	Cyfanswm y pensiwn cronodig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2012 (bandiau o £5,000) £000	Cyfandaliad yn 60 oed yn gysylltiedig â phensiwn cronodig ar 31 Mawrth 2012 (bandiau o £5,000) £000	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2012 £000	Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2011 £000	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod £000	Cyfraniad y cyflogwr at bensiwn rhanddeiliad £000
Mr Bob Hudson,* Prif Weithredwr	0 - 2.5	0 - 2.5	5 - 10	20 - 25	80	45	35	0
Dr Peter Bradley, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Iechyd Cyhoeddus	2.5 - 5	12.5 - 15	25 -30	85 - 90	475	340	135	0
Dr Hilary Fielder, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus	0 - 2.5	5 - 10	30 - 35	90 - 95	696	596	99	0
Mr Huw George, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	0 - 2.5	0 - 2.5	20 - 25	65 - 70	372	314	58	0
Mrs Ruth Davies,* Cyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol*	10 - 12.5	0 - 2.5	10 - 15	0	157	0	157	0
Mr Mark Dickinson, Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio a Pherfformiad	0 - 2.5	0 - 2.5	25 - 30	75 - 80	397	332	67	0
Mr Keith Cox, Ysgrifennydd y Bwrdd/Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	0 - 2.5	0 - 2.5	35 - 40	110 - 115	753	705	49	0
Mr Chris Lines, Cyfarwyddwr Cyfathrebu	0 - 2.5	2.5 - 5	5 - 10	20 - 25	135	101	34	0

Darperir y cyfrifiadau uchod gan Asiantaeth Pensiynau'r GIG ac maent yn seiliedig ar yr oedran pensiynadwy safonol, sef 60. O ran y cyfarwyddwr sydd â * ger eu henwau, 65 yw eu hoedran pensiynadwy hwy

Datganiadau o fuddiannau arwyddocaol

Yn ystod 2010-11 roedd buddiannau arwyddocaol Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru fel a ganlyn:

Yr Athro Syr Mansel Aylward CB

- Cyfarwyddwr Anweithredol: Bwrdd Cynghori'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Aelod – y Cyngor Cynghori ar Anafiadau Diwydiannol, Llundain
- Aelod: Pwyllgor Anrhydeddau Iechyd
- Cynghorydd Gwyddonol: Swyddfa Hawliadau Iechyd
- Cadeirydd: Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Noddwr: y Gymdeithas Adsefydlu Galwedigaethol
- Dirprwy Lywydd: Ymddiriedolaeth Shaw
- Cynghorydd: Pwyllgor Llywodraethu Clinigol ATOS Healthcare Ltd
- Cadeirydd: Bwrdd Cynghori Meddygol HCML Ltd
- Cadeirydd: Academi Presenoldeb y Post Brenhinol
- Cadeirydd: Fforwm Academaidd, Cyfadran Meddygaeth Alwedigaethol (RCP)
- Noddwr: Ymddiriedolaeth TREAT
- Cynghorydd Meddygol: US Preventive Medicine, Nashville, TN, USA
- Aelod: Cyngor y Coleg Meddygaeth, y DU
- Aelod: Bwrdd Cynghori Academaidd Canolfan Arloesedd mewn Gwasanaethau Iechyd, Bwrdd Iechyd Rhanbarthol Counties Manukau, Seland Newydd
- Dirprwy Lywydd: Coleg y Therapyddion Galwedigaethol

Dr Carl Clowes

- Is-gennad Anrhydeddus Lesotho yng Nghymru
- Llywydd Oes: Dolen Cymru
- Cyfarwyddwr y Bwrdd: Dolen Cymru (cwmni elusennol)
- Llywydd Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn (cwmni elusennol)

Dr Jo Farrar

- Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cadeirydd SOLACE Cymru
- Swyddog etholiadau ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a Swyddog Etholiadau Rhanbarthol ar gyfer ardal Canol De Cymru yn Etholiadau'r Cynulliad

Mr Terry Rose

- Cyflogir yn rhan amser gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch - nid oes ganddo gyfrifoldebau gweithredol na rheoleiddiol yng Nghymru
- Llywodraethwr Ysgol

Yr Athro Simon Smail

- Ymddiriedolwr: Leonard Cheshire Disability
- Gwraig: Mrs June Smail OBE, Cyfarwyddwr Anweithredol a Dirprwy Gadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Mr John Spence

- Cyfarwyddwr Anweithredol Asiantaeth Safonau Bwyd y DU tan 2013
- Cadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru

Yr Athro Gareth Williams

- Cadeirydd: Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Rheolwyr, Canolfan Deuluol Treganna, Caerdydd
- Cyd-gadeirydd: Rhaglen Cymrodoriaeth Ddoethurol NIHR, Sefydliad Cenedlaethol Ymchwil Iechyd, Leeds
- Aelod: Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru, Pwyllgorau Grantiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Atodiad 2 -

Adrodd ar gynlluniau iawndal eraill - pecynnau ymadael

Band cost pecyn gadael	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl nifer band cost 2011-2012	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl nifer band cost 2011-2012
<£10,000	4	3
£10,001 - £25,000	4	5
£25,001 - £50,000	5	5
£50,001 - 100,000	1	3
£100,001 - £150,000	0	0
£150,001 - £200,000	0	0
£200,001+	0	0
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math	14	16
Cost cyfanswm yr adnoddau £000	356	551

Datganiad sicrwydd

Cadarnhaf nad oes unrhyw wybodaeth berthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni. Fel Prif Weithredwr, rwyf wedi cymryd pob cam er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol a sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Bob Hudson

Swyddog cyfrifyddu, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Datganiad o gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel swyddog atebol yr Ymddiriedolaeth

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol yr Ymddiriedolaeth. Amlinellir cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion Atebol, yn cynnwys eu cyfrifoldeb dros eiddo a rheoleidd-dra arian cyhoeddus y maent yn atebol amdanynt ac ar gyfer cadw cofnodion cywir, yn y Memorandwm i Swyddogion Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a amlinellir yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol.



Bob Hudson Prif Weithredwr
30 Gorffennaf 2012

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Rwyf wedi archwilio'r datganiadau ariannol cryno a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar dudalennau 11-20.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol. Fy nghyfrifoldeb i yw adrodd fy marn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno â'r datganiadau ariannol statudol yn cynnwys yr adroddiad ar dâl. Rwyf hefyd yn darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Ariannol ac yn ystyried y goblygiadau i'm hadroddiad os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw

gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol yn y datganiadau ariannol cryno.

Sail y farn

Ymgymerais â'm gwaith yn unol â Bwletin 2008/3 'The auditor's statement on the summary financial statements' a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio i'w ddefnyddio yn y Deyrnas Unedig.

Barn

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol statudol ac adroddiad ar dâl Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2012 ac yr wyf wedi

cyhoeddi barn ddiamod arnynt.

Nid wyf wedi ystyried effeithiau unrhyw ddigwyddiadau rhwng y dyddiadau yr wyf wedi llofnodi fy adroddiad ar y datganiadau ariannol llawn, sef 27 Mehefin 2012, a dyddiad y datganiad hwn.

Huw Vaughan Thomas

Swyddfa Archwilio Cymru
Archwilydd Cyffredinol Cymru
14 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol
Caerdydd CF11 9LJ

10 Medi 2012